Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Partneriaethau ôl-16

## Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau

Ionawr 2021



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Senedd Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **10** |
| Cynllunio ac arweinyddiaeth strategol | 10 |
| Gweithio mewn partneriaeth | 11 |
| Cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i addysg ôl-16 | 12 |
| **Argymhellion** | **14** |
| **Cynllunio ac arweinyddiaeth strategol** | **15** |
| Cynllunio cwricwlwm yn lleol | 15 |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth partneriaethau darpariaeth ar y cyd | 18 |
| Cyllido | 20 |
| Gwella ansawdd | 21 |
| Cynllunio strategol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 23 |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | **26** |
| Mathau o bartneriaeth | 26 |
| Darpariaeth ôl-16 ar y cyd | 27 |
| Dysgu proffesiynol | 30 |
| **Cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i addysg ôl-16** | **32** |
| Cyngor ac arweiniad i ddysgwyr | 32 |
| Rhannu gwybodaeth am ddysgwyr | 35 |
| **Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth** | **38** |
| **Atodiad 2:  Modelau partneriaethau darpariaeth ar y cyd** | **40** |
| **Atodiad 3:  Gwybodaeth ategol** | **43** |
| **Geirfa** | **46** |
| **Cyfeiriadau** | **48** |

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog Addysg at Estyn ar gyfer 2019-2020. Mae'n adrodd ar gynllunio a gwaith partneriaeth strategol ar gyfer addysg dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae'n rhoi trosolwg o'r ffordd y mae chweched dosbarth ysgolion prif ffrwd yn gweithio gyda'i gilydd a gyda cholegau addysg bellach i gefnogi dysgwyr i astudio'r cyrsiau ôl-16 sy'n diwallu eu hanghenion a'u galluoedd orau. Nid yw cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys partneriaethau rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd a cholegau.

Nod yr adroddiad hwn yw cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o bartneriaethau yn y sector ôl-16, a chefnogi Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr eu hunain yn eu gwaith i wella darpariaeth ôl-16. Hwn yw'r adroddiad diweddaraf mewn cyfres o adolygiadau thematig gan Estyn ar ddarpariaeth 16-19 mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach, sydd wedi'i fwriadu i helpu llywio gwaith gwella a diwygiadau arfaethedig i addysg ôl-orfodol. Mae adroddiadau blaenorol wedi canolbwyntio ar gyrsiau Safon Uwch (Estyn, 2018), Cymraeg Safon Uwch (Estyn, 2020a), ac Astudiaethau Busnes a Chymdeithasol Safon Uwch (Estyn, 2020b).

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid ysgol, prif weithredwyr a phenaethiaid colegau, athrawon mewn ysgolion uwchradd a cholegau, swyddogion awdurdodau lleol a swyddogion consortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag 17 o ysgolion uwchradd, a 5 coleg.

Ymgymerwyd â bron yr holl weithgarwch thematig a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn cyn y tarfu ar addysg a achoswyd gan argyfwng COVID-19 yn 2020. O ganlyniad, oni nodir yn benodol, nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newidiadau a wnaed gan ddarparwyr er mis Mawrth 2020 i ymateb i'r pandemig.

# Cefndir

## Partneriaethau effeithiol

Gellir diffinio partneriaethau effeithiol rhwng ysgolion[1] a sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch yn nhermau saith nodwedd allweddol (Essex, 2001). Dylai partneriaeth:

- fod â diben a chyfeiriad wedi'u diffinio'n glir
- bod wedi ei chymeradwyo gan arweinwyr
- cynnwys ymddiriedaeth
- mabwysiadu cyfathrebu agored
- cynnwys parch ar y ddwy ochr
- darparu manteision pendant
- cael mecanweithiau i asesu cynnydd.

Nodwyd bod datblygu cymhellion gan lunwyr polisi allanol i annog cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth yn sbardun effeithiol ar gyfer gweithio'n well mewn partneriaeth (Boswell, 2000). Nodwyd yn y gorffennol mai ffactorau sy'n rhwystro cydweithio yw ymwrthedd cychwynnol, anawsterau cyfathrebu, diffyg cyllid ac adnoddau, a chyfrifoldebau arwain aneglur (Nunley *et al*., 2000).

Gall partneriaethau darpariaeth ar y cyd fod o fudd uniongyrchol i ddysgwyr, trwy ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael iddynt. Gall darparwyr wella hyfywedd grwpiau addysgu sy'n fach fel arall, trwy rannu eu darpariaeth a'u hadnoddau. Pan fydd gwaith partneriaeth yn cwmpasu gweithgareddau dysgu proffesiynol, gall athrawon ac arweinwyr canol ddysgu o waith eu cymheiriaid mewn darparwyr partner, a'i gefnogi. Gall uwch arweinwyr elwa ar gyfraniadau gwerthfawr at brosesau gwella ansawdd gan gydweithwyr o ddarparwyr partner. Gall hyn, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio arbenigedd addysgu pynciau mewn darparwyr partner, helpu gwella ansawdd yr addysgu y mae dysgwyr yn ei brofi. Yn ychwanegol, yn aml, mae perthnasoedd cadarn rhwng gwahanol ddarparwyr yn hwyluso cyfnod pontio esmwyth i ddysgwyr os byddant yn gadael un darparwr i gofrestru mewn darparwr arall.

Mae ymchwil yn awgrymu bod graddau'r cydweithio rhwng darparwyr, yn gyffredinol, yn cael eu heffeithio gan sbardunau ac ysgogiadau polisi, cyd-destun lleol, a safleoedd a diwylliannau sefydliadol (Higham a Yeomans, 2010). Mae'r rhain yn cwmpasu sawl ffactor, yn cynnwys graddau o orgyffwrdd mewn darpariaeth rhwng darparwyr, natur ddaearyddol yr ardaloedd lleol, canfyddiadau o ansawdd y ddarpariaeth, ac ansawdd y gofal, yn ogystal â gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol.

---

[1] Defnyddir y term 'ysgol' trwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio'n unig at ddarparwr addysg uwchradd prif ffrwd a ariennir yn gyhoeddus, sy'n cwmpasu darpariaeth cyfnod allweddol 4. Mae hyn yn cynnwys ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed. Nid yw'n cyfeirio at ysgolion annibynnol nac ysgolion arbennig.

## Y cwricwlwm lleol

Defnyddiwyd sawl sbardun deddfwriaethol i gefnogi ac annog cydweithio rhwng darparwyr addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed yng Nghymru.[2] Arweiniodd Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000) at sefydlu cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed ym mhob awdurdod lleol. Nododd y dylai cwricwlwm lleol gynnwys cyrsiau astudio ym mhob un o'r 5 parth dysgu, sef:

- mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg
- busnes, gweinyddu a'r gyfraith
- gwasanaethau i bobl
- y celfyddydau, y cyfryngau, diwylliant ac ieithoedd
- y dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith

Nododd y ddeddf y dylid hyrwyddo mynediad at gyrsiau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o bob cwricwlwm lleol. Fe'i gwnaeth yn ofynnol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a cholegau addysg bellach (AB) gynorthwyo â chynllunio'r cwricwlwm lleol, a gosododd ddyletswydd ar y partïon hyn i gydweithio.

Amlinellodd canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004, 2006) sut y dylid sefydlu Rhwydweithiau 14-19 lleol i gynnwys darparwyr dysgu a sefydliadau strategol o fewn pob awdurdod lleol. Mynnwyd bod y rhwydweithiau hyn yn sicrhau parhad, cydlynu a dilyniant ar draws ystod eang o raglenni astudio galwedigaethol ac academaidd i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed. Roedd hyn yn gofyn am gydweithredu a chydweithio rhwng yr holl ddarparwyr dysgu a sefydliadau ategol yn gweithredu ym mhob ardal leol. Amlinellodd cyhoeddiad *'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'* (Llywodraeth Cymru, 2006) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed yng Nghymru. Fel rhan o hyn, nod y fenter Llwybrau Dysgu 14-19 yw annog mwy o bobl ifanc i gyflawni eu potensial i fod wedi'u harfogi'n well ar gyfer y byd gwaith, a bod yn ddinasyddion mwy gwybodus a mwy gweithredol. Y nod oedd cynyddu cyfran y dysgwyr 16 mlwydd oed sy'n ennill cymwysterau gwerth chweil ac yn mynd ymlaen i ddysgu pellach mewn addysg neu hyfforddiant, yn ogystal ag ehangu'r dewis o gyrsiau a gwella cyfle cyfartal. Byddai ysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r llwybrau dysgu trwy rwydwaith 14-19 lleol. I ffurfio'r llwybrau, roedd disgwyl i'r partneriaid ym mhob rhwydwaith 14-19 lleol amlinellu ystod lawn y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ardal trwy ddewislen opsiynau. Byddai'r dewislenni hyn yn arloesol ac yn gydweithredol, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr astudio ar draws y parthau dysgu gyda dewis cynyddol, yn enwedig o gyrsiau ymarferol, cymhwysol a galwedigaethol, yn ogystal ag osgoi dyblygu'r ddarpariaeth mewn modd di-fudd.

Atgyfnerthodd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 y ddyletswydd ffurfiol ar awdurdodau lleol, penaethiaid, penaethiaid colegau a'r cyrff llywodraethol mewn ysgolion a cholegau i gynorthwyo Gweinidogion Cymru â chynllunio'r cynnig cwricwlwm 16-18 lleol mewn ffordd gydweithredol. Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar sut y dylid gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 (Llywodraeth Cymru, 2014b). Esboniodd sut y dylid cynllunio cwricwla

[2] Mae gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac arweiniad yn cyfeirio at ond ystodau oedran gwahanol ond sy'n gorgyffwrdd; yn nodweddiadol, dysgwyr 16-18, 14-19 neu 16-19 mlwydd oed.

lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 18 mlwydd oed trwy gyd-gynllunio, gan roi ystyriaeth addas i lwybrau galwedigaethol ac academaidd fel ei gilydd. Rhaid i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg bellach roi ystyriaeth briodol i'r arweiniad statudol hwn. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn wedi cael ei ddiweddaru ers i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2014 dynnu'r ddyletswydd i gydweithio oddi wrth golegau AB, i bob pwrpas (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014).


## Cynllunio a chyllido

Mae'r fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16 (Llywodraeth Cymru, 2013a), a ddiwygiwyd ym mis Medi 2014, yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau cynllunio blynyddol i golegau AB ac awdurdodau lleol. Mae'r arweiniad hwn wedi'i seilio ar flaenoriaethau gweinidogol strategol, ac yn cynnwys gwybodaeth am batrymau cyflwyno blaenorol ac arfaethedig ar gyfer gwahanol raglenni dysgu ar draws awdurdodau lleol a cholegau AB. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae colegau ac awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm a gynigir, ac i unrhyw agweddau ehangach ar y ddarpariaeth yn ogystal. Cyhoeddwyd y llythyrau diweddaraf yn cadarnhau'r pedair blaenoriaeth weinidogol ym mis Rhagfyr 2016 ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-2018 (Llywodraeth Cymru, 2016a, 2016b). Caiff colegau AB ac awdurdodau lleol eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglenni dysgu y maent yn eu darparu ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu dyraniadau i ariannu chweched dosbarth ysgolion unigol. Tra bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg gyffredin i bennu cyllid chweched dosbarth a sector AB awdurdodau lleol, mae'r trefniadau cyllido ar gyfer chweched dosbarth ysgolion gan yr awdurdodau lleol yn amrywio ledled Cymru (Estyn, 2018).

## Goruchwylio

Ac eithrio ysgolion annibynnol, ledled Cymru, caiff ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed eu cynnal gan awdurdodau lleol. Cyflwynwyd 4 consortiwm rhanbarthol gwella ysgolion gan y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013b), y mae pob un ohonynt yn gweithredu ar draws nifer o awdurdodau lleol. Mae'r consortia rhanbarthol yn arwain ar waith gwella ysgolion ar ran yr awdurdodau lleol yn eu hardaloedd. Nid yw un awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o gonsortiwm ar hyn o bryd, ac mae'n darparu ei wasanaeth gwella ysgolion ei hun. Mae'r model cenedlaethol yn nodi mai un o swyddogaethau cyflawni'r consortia yw cael trosolwg strategol o'r cynnig 14-19 rhanbarthol. Mae hefyd yn datgan bod rhaid iddynt sicrhau ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys darparwyr ôl-16, fel colegau. Mae gan bob consortiwm rhanbarthol swyddog dynodedig neu ymgynghorydd her ar gyfer addysg ôl-16. Tynnwyd colegau AB o reolaeth awdurdodau lleol yn dilyn cyflwyno Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Prydain Fawr, 1992). O'r herwydd, maent yn annibynnol ar awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol.


**Ffigur 1: Y pedwar consortiwm rhanbarthol gwella ysgolion**[3]




Mae tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol ledled Cymru yn helpu nodi anghenion medrau'r marchnadoedd cyflogaeth lleol a chenedlaethol i helpu colegau AB i ffurfio'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig. Mae pob un ohonynt yn bartneriaeth wirfoddol, anstatudol, sy'n cynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru am ddarpariaeth colegau AB a phrentisiaethau, yn cynnwys nifer y graddedigion sydd eu hangen i ddiwallu anghenion economaidd rhanbarthol. Sefydlwyd y tair partneriaeth rhwng 2007 a 2014, ac mae pob un ohonynt wedi esblygu'n annibynnol, wedi'u ffurfio gan eu rhanbarthau eu hunain, ac yn fwy diweddar, eu Bargeinion Dinesig a Thwf priodol (Tŷ'r Cyffredin, 2019).

[3] Y pedwar consortiwm rhanbarthol yw'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE), Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD). Ym mis Mawrth 2020, gadawodd awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot gonsortiwm rhanbarthol ERW. Darparwyd y map gan Lywodraeth Cymru.

**Ffigur 2: Y tair partneriaeth sgiliau ranbartholl[4]**




(Llywodraeth Cymru 2020h)

Mae methodolegau cyllido, mesurau perfformiad, arferion arolygu a threfniadau goruchwylio rhanbarthol yn gallu dylanwadu ar y ddarpariaeth a gynigir gan ysgolion a cholegau, yn ogystal â'r cyngor a'r arweiniad maent yn eu rhoi i ddarpar ddysgwyr. Tan yn ddiweddar, roedd perfformiad dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB yn cael ei fesur yn wahanol, hyd yn oed os oedd dysgwyr yn y ddau fath gwahanol o ddarparwr yn dilyn yr un cyrsiau. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau perfformiad ôl-16 newydd i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Mae'r rhain yn mesur cyflawniadau dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau yn yr un ffordd.[5]

Yn 2016, argymhellodd adolygiad o addysg ôl-orfodol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y dylid sefydlu un awdurdod rheoleiddio, goruchwylio a chydlynu (Hazelkorn, 2016). Diben awdurdod o'r fath fyddai gwireddu gweledigaeth drosfwaol system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i Gymru yn seiliedig ar gysylltiadau cryfach rhwng polisi, darparwyr a darpariaeth addysg, a nodau cymdeithasol ac economaidd. O ganlyniad, yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig (Llywodraeth Cymru, 2020i). Mae'r bil drafft hwn yn cynnig sefydlu Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), a fydd yn rheoleiddio gwaith bron pob un o'r darparwyr addysg a hyfforddiant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer dysgwyr y tu hwnt i 16 mlwydd oed.

[4] Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru (NWRSP); Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRSP) De-ddwyrain Cymru; Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru (RLSP)

[5] Mae Llywodraeth Cymru wedi atal ei mesurau perfformiad addysg dros dro oherwydd y tarfu ar addysgu arferol a achosir gan bandemig COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2020d).

Disgwylir i'r Comisiwn alluogi barn strategol a chydweithredol am addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed ar draws economi gymysg o ddarpariaeth ôl-16. Yn amodol ar ddeddfwriaeth, bydd ganddo bwerau cyllido, cynllunio a rheoleiddio helaeth, gan alluogi iddo wella ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (Llywodraeth Cymru, 2020f).

### Darpariaeth ôl-16

Mae'r trefniadau ar gyfer darparu addysg i ddysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed ledled Cymru yn cynnwys cydweithio rhanbarthol i raddau amrywiol. Yn 2006, fe wnaeth adolygiad thematig Estyn gategoreiddio cydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Adeg ei gyhoeddi yn 2006, canfu adolygiad thematig Estyn fod 64% o chweched dosbarth ysgolion ledled Cymru yn gweithredu o dan ddull 'cystadleuaeth / ynysu', ac roedd 32% yn rhan o ddull 'cydweithredu', gyda 4% yn unig yn cymryd rhan mewn 'cydlynu a chydweithio' llawnach gyda cholegau (Estyn, 2006). Nid oedd unrhyw ddarparwyr yn rhan o 'gonffederasiwn'.

Daeth yr adolygiad thematig i'r casgliad mai prin oedd y cydweithio rhwng chweched dosbarth ysgolion a cholegau. Pan oedd cydweithio yn digwydd, roedd hyn er mwyn ehangu'r dewis o gyrsiau a gynigiwyd, i helpu ysgolion i gynnal eu chweched dosbarth a bodloni mentrau'r llywodraeth. Canfu nad oedd gwella ansawdd a chodi safonau yn sbardunau allweddol i ysgolion a cholegau gydweithio. Canfu'r adolygiad thematig fod diffyg cyffredinol o ran asesiad clir o fanteision cydweithio i ddysgwyr. Daeth i'r casgliad fod aildrefnu a chyfuno'r ddarpariaeth ddysgu, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol trefol a mwy cywasgedig, yn ffordd well o wella effeithlonrwydd, o gymharu â dysgwyr yn teithio rhwng darparwyr ar gyfer gwahanol wersi.


At ddibenion y gwaith arolwg hwn, rydym wedi diweddaru'r categorïau partneriaethau darpariaeth ar y cyd. Y 5 categori yw annibyniaeth, cydweithredu, cydweithio, consortiwm a chonffederasiwn. Disgrifir nodweddion pob un o'r trefniadau partneriaeth hyn yn Atodiad 2.

Mae darpariaeth drydyddol gyfunol[6] yn cynnwys dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau TGAU mewn ysgolion uwchradd nad oes ganddynt eu chweched dosbarth eu hunain, cyn cofrestru mewn coleg lleol neu chweched dosbarth mewn ysgol gyfagos ar gyfer eu haddysg ôl-16. Heddiw, mae trefniadau o'r fath wedi hen ennill eu plwyf mewn ardaloedd fel gorllewin Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot a rhannau o Gaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae'r model hwn wedi cael ei fabwysiadu mewn rhannau o Sir Benfro a Thorfaen yn ddiweddar.

Gall un neu fwy o'r modelau hyn weithredu yn yr un ardal. Er enghraifft, gall y model trydyddol cyfunol fodoli ar y cyd ochr yn ochr ag ysgolion mwy sy'n cynnal eu chweched dosbarth annibynnol / ynysig eu hunain, i raddau helaeth.

[6] Nid oes gan ysgolion uwchradd eu chweched dosbarth ar wahân eu hunain. Mae dysgwyr o'r ysgolion hyn yn symud ymlaen i goleg cyfagos neu ysgol gyfagos sydd â chweched dosbarth.

**Ffigur 3: Lleoliadau ysgolion heb chweched dosbarth, ysgolion sydd â chweched dosbarth, a cholegau**




(Llywodraeth Cymru, 2020a)[7]

Mae'r chweched dosbarth mewn rhyw ddwy o bob tair ysgol uwchradd yng Nghymru yn cynnig cyrsiau Safon Uwch, ac yn y rhan fwyaf o achosion, cyrsiau galwedigaethol fel rhan o'u hopsiynau astudio lefel 3 (Llywodraeth Cymru, 2020a). Yn aml, mae darpariaeth alwedigaethol Lefel 3 a gyflwynir gan ysgolion ar ffurf nifer o is-ddiplomâu sydd gyfwerth ag un cymhwyster Safon Uwch. Mae'r cyrsiau hyn yn tueddu i ffurfio rhan o raglenni astudio hybrid sy'n cynnwys un pwnc Safon Uwch neu fwy, ochr yn ochr ag un is-ddiploma neu fwy.

[7] Casglwyd gwybodaeth ar gyfer AB oddi ar wefannau darparwyr.

Yn nodweddiadol, mae colegau AB yn darparu cynnig eang o gyrsiau ar draws ystod eang o lefelau, o lefel Mynediad i lefel 3 a thu hwnt. Mae cyfran cynnig pob coleg sy'n darparu ar gyfer dysgwyr 'chweched dosbarth' 16-19 mlwydd oed yn amrywio'n sylweddol rhwng colegau, yn dibynnu ar ffactorau lleol. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o golegau AB yng Nghymru yn cynnig cyflenwad llawn o gyrsiau Safon Uwch, yn ogystal â chyrsiau galwedigaethol lefel 3. Cyflwynir tua 30% o gyrsiau Safon Uwch a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru mewn colegau (Llywodraeth Cymru, 2020c, 2020e).

Arweiniodd agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddnewid yn y sector ôl-16 yn 2008 at uno'r 24 coleg / sefydliad AB dros gyfnod. Mae hyn wedi arwain at yr 13 sefydliad addysg bellach (SAB) sy'n bodoli yng Nghymru heddiw. Mae dau o'r rhain yn golegau AB sy'n is-gwmnïau ym mherchnogaeth lwyr sefydliadau addysg uwch. Mae tri o'r 13 SAB ledled Cymru yn cynnwys, yn rhannol, ganolfannau chweched dosbarth dynodedig a oedd yn golegau chweched dosbarth ar wahân cyn iddynt uno. Mae'r rhain yn parhau i ddarparu addysg drydyddol ar gyfer dysgwyr sy'n gadael ysgolion uwchradd 11-16 yn eu hardaloedd. Mae un coleg chweched dosbarth ar ei ben ei hun sy'n weddill yng Nghymru, wedi'i leoli yng Nghaerdydd, sydd wedi'i ddosbarthu'n goleg addysg bellach Catholig. Caiff darparwr cenedlaethol dysgu oedolion yn y gymuned ei ddosbarthu fel 13^eg sefydliad AB; ni fydd y darparwr hwn yn dod o dan gwmpas yr adroddiad hwn gan ei fod yn darparu i raddau helaeth ar gyfer dysgwyr hŷn sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser.

Disgwylir i ysgolion a cholegau weithio gyda'i gilydd i hwyluso cyfnod pontio dysgwyr. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch *'Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol'* (2019), dylent weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ar lwybrau addysgol a nodau gyrfa. Hefyd, dylent rannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol, yn cynnwys eu cyflawniadau, lles, ymddygiad, presenoldeb, a deilliannau cymhwyster pan fyddant yn trosglwyddo o un darparwr i un arall.

# Prif ganfyddiadau

## Cynllunio ac arweinyddiaeth strategol

1 Mae'r mwyafrif o golegau ac awdurdodau lleol yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Maent yn rhannu eu cynlluniau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i werthuso effeithiau'r cynlluniau hyn ar ysgolion a cholegau yn yr ardal. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar un llaw, a cholegau ar y llaw arall, yn ymgysylltu â'i gilydd yn ddigon da. Mewn gormod o achosion, nid yw cynllunio arweinwyr ysgolion a cholegau yn ystyried cymuned ehangach ysgolion a cholegau lleol, a'r garfan ehangach o ddysgwyr, yn ddigon da.

2 Dywed mwyafrif yr uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth nad yw'r berthynas â'u colegau lleol mor gryf ag ydyw gydag ysgolion eraill, ar y cyfan. Hefyd, mae uwch arweinwyr mewn colegau yn cydnabod bod hyn yn broblem rhwng colegau a lleiafrif o ysgolion ledled Cymru. Maent yn adrodd am ymdeimlad o gystadleuaeth a diffyg tryloywder ac ymddiriedaeth rhwng y ddau sector. Mewn ychydig o achosion, mae tensiynau tebyg yn bodoli rhwng ysgolion.

3 Mewn ychydig o achosion, mae gwahanol gyfundrefnau cynllunio, cyllido a goruchwylio yn rhwystro partneriaethau cynhyrchiol rhwng darparwyr. Mae ffiniau gweinyddol o'r fath yn codi rhwng ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol, a rhwng y sectorau ysgolion a cholegau yn ogystal. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddarparwyr sydd mewn sefyllfa dda i weithio gyda'i gilydd yn cydweithio o ganlyniad i'r gwahanol gyfundrefnau y maent yn gweithredu oddi tanynt.

4 Nid yw darparwyr ac awdurdodau lleol yn defnyddio Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i arwain eu cynllunio strategol yn y sector ôl-16 yn ddigon da. Nid yw lleiafrif o arweinwyr ysgolion yn hyderus fod y cynnig sydd ar gael i'w dysgwyr yn bodloni gofynion y mesur. Mae prosesau llywodraeth leol a chenedlaethol ar gyfer sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r gofynion wedi dod yn llai effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, caiff cydymffurfio â'r mesur ei fonitro'n anghyson ledled Cymru, ac ar hyn o bryd, nid yw'n glir faint o ddysgwyr a all fanteisio ar gynnig cwricwlwm digon eang yn y sector ôl-16.

5 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae sawl awdurdod lleol wedi cynnal adolygiadau gwerth chweil o ddarpariaeth chweched dosbarth leol sy'n arwain at argymhellion strategol defnyddiol ar gyfer gwelliannau. Mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i'r argymhellion hyn yn ddigon da. Mae hyn yn caniatáu i agweddau gwan neu aneffeithlon ar ddarpariaeth ôl-16 barhau.

6 Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i rannu darpariaeth ôl-16 lle mae dysgwyr o wahanol ddarparwyr yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau addysgu cyfunol. Mae hyn yn helpu sicrhau dewis gwell o gyrsiau ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth a lleihau costau gweithredol. Mewn ychydig o achosion, mae uwch arweinwyr yn defnyddio arbenigwyr pwnc o ddarparwyr partner i helpu gwella ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, mae darparwyr yn cyfnewid cyfrifoldeb am

gyflwyno cyrsiau penodol er mwyn gwella'r profiad dysgu. Mae ychydig o ddarparwyr yn gwahodd arbenigwyr pwnc o ysgolion neu golegau eraill i helpu cefnogi a gwella eu hadrannau pwnc.

7 Mae mwyafrif o arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad cyrsiau a gyflwynir i'w dysgwyr gan ddarparwyr eraill. Maent yn manteisio ar werthusiadau ei gilydd o wersi a chofnodion cynnydd dysgwyr dros gyfnod, ac yn casglu barn dysgwyr am eu gwersi hefyd. Mae effeithiolrwydd cyffredinol prosesau gwella ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn anghyson ledled Cymru, ac mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan arweinwyr drefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith.

8 Mae mwyafrif yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn rhannu darpariaeth ôl-16 trwy bartneriaethau bach a arweinir gan y darparwyr eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion cyfagos yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf. I oresgyn y pellterau hir rhyngddynt, mae ychydig o ddarparwyr yn rhannu darpariaeth trwy ddefnyddio cysylltiadau fideo rhwng gwersi ei gilydd. Mae llawer o athrawon pwnc sy'n cyflwyno gwersi chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cydweithio'n dda i ddatblygu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd cydweithio i helpu dysgwyr i ddilyn elfennau o gyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gweithio mewn partneriaeth

9 Ledled Cymru, mae traean o ysgolion uwchradd yn rhan o drefniadau cyfunol, heb unrhyw chweched dosbarth yn yr ysgolion eu hunain. Mae gan 8% eu chweched dosbarth eu hunain ac nid ydynt yn rhannu unrhyw ddarpariaeth ag ysgolion neu golegau eraill. Mae chweched dosbarth gan y 59% o ysgolion sy'n weddill, a dywedant eu bod yn rhan o bartneriaethau ôl-16 o ryw fath.[8] Mae gan ddau o'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, rolau arwyddocaol mewn rhwydweithiau partneriaeth ôl-16 ar y cyd ag ysgolion lleol. Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag Ysgol Gyfun Pen-coed gerllaw hefyd i weithredu canolfan chweched dosbarth ar y cyd.

10 Fel rhan o'u cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol, dylai ysgolion sy'n defnyddio darpariaeth ar y cyd gyflwyno gwybodaeth am ddarparwr pob cwrs y mae eu dysgwyr yn ei ddilyn. At ei gilydd, nid yw ysgolion ledled Cymru yn adrodd yn ddigonol am raddau'r ddarpariaeth hon ar y cyd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fonitro graddau darpariaeth o'r fath a'r deilliannau a gyflawnir gan y grwpiau o ddysgwyr sy'n cymryd rhan.

11 Mae'r rhan fwyaf o chweched dosbarthiadau ysgolion sy'n rhannu darpariaeth yn cludo dysgwyr rhyngddynt i fynychu gwersi; mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio trefniadau dysgu o bell yn lle.[9] Yn y naill achos a'r llall, mae trefniadau darpariaeth ar y cyd yn aml yn anffurfiol, ac nid oes ganddynt drefniadau ysgrifenedig sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'n glir.

[8] Arolwg a gynhaliwyd trwy gonsortia rhanbarthol ym mis Hydref 2020; gweler ffigur 4.
[9] Ers adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae darparwyr wedi cynyddu eu defnydd o drefniadau dysgu o bell i ymateb i bandemig COVID-19.

12 Mae llawer o ysgolion yn cynnig dewis eang o opsiynau astudio yn y chweched dosbarth i ddysgwyr. Fodd bynnag, yn 2018-2019, roedd dysgwyr mewn 25% o ysgolion yn astudio ar draws ystod fwy cyfyngedig o 25 o gyrsiau chweched dosbarth neu lai (Llywodraeth Cymru, 2020e). Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu chweched dosbarthiadau ysgolion eu bod wedi gallu dewis y pynciau roeddent eisiau eu hastudio, ond nid oedd ychydig ohonynt yn cael cyfle i astudio pynciau llai poblogaidd a oedd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft gwleidyddiaeth neu economeg.

13 Mae uwch arweinwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn sicrhau bod y mwyafrif o athrawon chweched dosbarth ac arweinwyr canol ysgolion yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol ochr yn ochr â'u cyfoedion o ysgolion eraill. Rhwng colegau, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch rhwydweithio yn cynnwys uwch arweinwyr, sy'n cyfarfod â'u cyfoedion o bob cwr o Gymru yn rheolaidd. Fodd bynnag, ychydig o ddarparwyr yn unig sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi dysgu proffesiynol rhwng ysgolion a cholegau, hyd yn oed lle mae ganddynt staff yn ymgymryd â rolau tebyg. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cyfathrebu neu'n gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i ddatblygu'r cyfleoedd hyn.

### Cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i addysg ôl-16

14 Mae llawer o ysgolion yn rhoi gwybodaeth addas i ddysgwyr am yr opsiynau sydd ar gael wedi iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn elwa ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau i'w helpu i ddysgu am eu hopsiynau ôl-16 ym mhob darparwr lleol, a phenderfynu rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod â chynrychiolwyr o ddarparwyr ôl-16 lleol eraill, gan gynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith, yn ogystal ag ysgolion a cholegau.

15 Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a gânt tra byddant yn yr ysgol. Mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw cyngor gan ysgolion yn mynd i'r afael â llwybrau eraill yn lle astudiaethau Safon Uwch yn ddigonol, a bod aelodau staff yn aml yn canolbwyntio ar annog dysgwyr i symud ymlaen i chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae dysgwyr o'r farn nad yw darparwyr ôl-16, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yn rhannu digon o wybodaeth am ansawdd eu darpariaeth a'r deilliannau a gyflawnir gan eu dysgwyr.

16 Mae llawer o chweched dosbarthiadau ysgolion a cholegau yn rhoi blaenoriaeth uchel i nifer y cofrestriadau dysgwyr. Yn aml, mae arweinwyr chweched dosbarthiadau bach yn teimlo eu bod dan bwysau ariannol i sicrhau bod dysgwyr Blwyddyn 11 yn symud ymlaen i'w chweched dosbarth. Mewn lleiafrif o achosion, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cyfyngu ar hyrwyddo dewisiadau eraill o ganlyniad. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr ysgol yn gwahodd darparwyr eraill i drafod eu darpariaeth ôl-16 gyda dysgwyr Blwyddyn 11 mewn ffordd gynhwysfawr.

17 Nid yw mwyafrif y darparwyr yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol i gefnogi eu cyfnod pontio pan fyddant yn trosglwyddo i ysgol arall neu goleg. Prin yw'r darparwyr sy'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch *'Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol'* (Llywodraeth Cymru, 2019) yn llwyddiannus.

18 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion nad oes ganddynt eu chweched dosbarth eu hunain yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i ddysgwyr am ystod lawn yr opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt.  Mae dysgwyr yn elwa ar ryngweithio rheolaidd gyda darparwyr ôl-16 lleol, ysgolion a cholegau fel ei gilydd, i ddysgu am y cyrsiau a gynigir a thrafod eu dyheadau.  Mewn lleiafrif o achosion, mae’r ysgolion hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn rhyngweithio â darparwyr dysgu yn y gwaith hefyd.  Mae gan lawer ohonynt drefniadau pontio effeithiol sy’n cael eu cefnogi gan ddeialog fuddiol rhwng aelodau staff ysgol sy’n adnabod dysgwyr unigol yn dda, a chynrychiolwyr o’r darparwyr ôl-16.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Sicrhau gwaith partneriaeth cryf i ddatblygu darpariaeth gydweithredol â darparwyr eraill lle mae hyn yn helpu i wella ansawdd neu ehangu dewis

A2 Sicrhau bod darpariaeth ôl-16 a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn cael ei hategu gan gytundebau ysgrifenedig o gyfrifoldebau, ac y caiff ei chynnwys yn llawn o fewn prosesau cynllunio gwelliant

A3 Sicrhau bod cyngor ac arweiniad i ddysgwyr yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, ac yn cael ei lywio gan y ddarpariaeth, y safonau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 lleol

A4 Rhannu gwybodaeth i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr i ddarparwyr eraill, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

A5 Cyflwyno gwybodaeth gywir am y rhaglenni y mae dysgwyr yn eu dilyn, yn cynnwys darparwr pob gweithgaredd dysgu, fel rhan o'u cyflwyniadau data blynyddol i Lywodraeth Cymru

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Sicrhau bod cynllunio strategol yn cynnwys y gymuned ehangach o ysgolion a cholegau lleol

A7 Gweithio gyda cholegau ar weithgareddau dysgu proffesiynol ar y cyd, lle bo'n briodol

A8 Gweithio gyda cholegau i sicrhau bod ystod addas o ddarpariaeth ôl-16 ar gael yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 Adolygu ac atgyfnerthu deddfwriaeth, polisi ac arweiniad ar gyfer darpariaeth ôl-16 i sicrhau cysondeb ac eglurder disgwyliadau mewn ffordd sy'n adeiladu ar ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru

A10 Cymhwyso dull cyson i oruchwylio a monitro ansawdd darpariaeth ôl-16, yn cynnwys ystyriaethau cynllunio a chyllido

A11 Rhoi gwybodaeth glir i ddarpar ddysgwyr a'u rhieni am gynnydd a deilliannau dysgwyr ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach yng Nghymru

A12 Sicrhau bod unrhyw Gomisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn y dyfodol yn mynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad thematig hwn

## Cynllunio ac arweinyddiaeth strategol

### Cynllunio cwricwlwm yn lleol

19 Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn mynnu y dylai cynnig cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau cydnabyddedig lefel 3, gyda dewisiadau eraill lefel 2 yn addas ar gyfer ychydig o ddisgyblaethau galwedigaethol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Dylai'r cynnig gynnwys o leiaf 5 cwrs cyffredinol (yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch) a 5 cwrs galwedigaethol. Dylai'r cyrsiau galwedigaethol rychwantu o leiaf dri pharth, ac un o'r rhain fydd mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg. Fodd bynnag, mae dehongliad uwch arweinwyr o'r gofynion hyn ar lefel darparwr unigol yn anghyson, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn glir ynghylch p'un a yw'r cynnig sydd ar gael i'w dysgwyr yn bodloni'r gofynion hyn. Caiff cydymffurfio â'r gofynion hyn ei fonitro'n anghyson, ac ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wybodaeth glir ar gael am gyfran y dysgwyr ym mhob ardal o Gymru sy'n cael cyfle i fanteisio ar gynnig cwricwlwm mor eang yn y sector ôl-16.

20 Mae llawer o ysgolion a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd a'u hawdurdodau lleol yn dda i uno darpariaeth ôl-16. Mae hyn wedi eu helpu i ehangu ystod y pynciau a gynigir, ac ymateb i'r gostyngiad demograffig yn nifer y dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf (StatsCymru, 2020). Y ddwy brif strategaeth a ddefnyddir yw rhannu darpariaeth chweched dosbarth rhwng ysgolion a cholegau neu gyfuno darpariaeth chweched dosbarth mewn un darparwr. Nid oes chweched dosbarth mewn traean o ysgolion uwchradd,[10] ac yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn symud ymlaen i ddarpariaeth chweched dosbarth gyfunol mewn darparwyr eraill. Dywed tua 59% o ysgolion eu bod yn rhannu darpariaeth ôl-16. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr o wahanol ddarparwyr yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau addysgu pynciau cyfunol. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae awdurdodau lleol, colegau ac ysgolion yn cynllunio darpariaeth ôl-16 yn strategol trwy ymgynghori â'i gilydd yn parhau i fod yn rhy anghyson ledled Cymru. Er gwaethaf y ddeddfwriaeth a'r arweiniad a gyflwynwyd er 2004 i annog cyd-gynllunio strategol ar lefel leol, prin yw'r darparwyr sy'n gweithio gyda darparwyr eraill yn lleol i wneud y gorau o'r cwricwlwm lleol, yn ei gyfanrwydd. Mae lleiafrif o ysgolion sy'n rhannu darpariaeth yn gwneud hynny i raddau helaeth i ymateb i bwysau ariannol cynyddol sy'n deillio o ostyngiad yn niferoedd y dysgwyr sy'n cofrestru, a newidiadau i drefniadau cyllido.

21 Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cyfarfod ag arweinwyr colegau yn aml; yn yr achosion hyn, mae'r naill a'r llall yn rhannu eu cynlluniau ac yn gweithio gyda'i gilydd i helpu ffurfio darpariaeth leol mewn ffordd gydweithredol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw uwch arweinwyr awdurdodau lleol a cholegau yn ymgysylltu â'i gilydd yn ddigon da. Yn yr un modd, mae'r graddau y mae consortia rhanbarthol a cholegau yn manteisio ar gyfleoedd i gynnwys ei gilydd mewn gweithgareddau perthnasol yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau a darparwyr.

[10] Arolwg a gynhaliwyd trwy gonsortia rhanbarthol ym mis Hydref 2020; gweler ffigur 4.

22 Yn ddiweddar, mae sawl awdurdod lleol wedi cynnal adolygiadau o ddarpariaeth chweched dosbarth yn eu hardaloedd. Mae adolygiadau o'r fath yn canolbwyntio ar y galw arfaethedig, demograffeg, logisteg, cost-effeithiolrwydd ac effaith ar ddarparwyr a chymunedau lleol. Maent yn cynnwys ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r gymuned ehangach. Mewn llawer o achosion, mae datblygiadau dilynol yn sicrhau gwelliannau gwerth chweil a phendant ar gyfer dysgwyr, fel dewis gwell o gyrsiau. Mewn ychydig o achosion, ni ddefnyddiwyd canfyddiadau ac argymhellion adolygiadau o'r fath i sicrhau gwelliannau.

23 Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi ad-drefnu, sy'n cynnwys cyfuno darpariaeth chweched dosbarth yn rhannol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys lleihau nifer yr ysgolion sydd â'u chweched dosbarth eu hunain, a nodi neu sefydlu nifer fach o ganolfannau lle bydd addysgu chweched dosbarth yn digwydd. Ledled Cymru, mae 33% o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yn gweithredu fel ysgolion partner i ganolfannau ôl-16 o'r fath.[11] Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cyfuno darpariaeth yn rhannol yn Sir Benfro, a chyfuno'r holl ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Saesneg yn awdurdod lleol Torfaen. Mewn enghreifftiau llwyddiannus, rhoddwyd trefniadau ar waith i gyfyngu ar yr effeithiau negyddol canfyddedig ar yr ysgolion sy'n colli eu chweched dosbarth. Er enghraifft, mae gan arweinwyr ysgol a llywodraethwyr rôl bwysig a pharhaus i helpu ffurfio a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ôl-16 yn y ganolfan newydd y mae eu dysgwyr yn symud ymlaen iddi.

**Astudiaeth achos 1: Ymglymiad ysgol yn goruchwylio ar Gampws 6, Sir Benfro**

Yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol, caewyd dau chweched dosbarth mewn ysgolion yng ngogledd Sir Benfro, yn Ysgol Bro Gwaun ac Ysgol Dewi Sant (Ysgol Penrhyn Dewi erbyn hyn) trwy gyfuno darpariaeth yn adeilad newydd Campws 6 yng Ngholeg Penfro. Roedd aelodau o gymunedau'r ddwy ysgol yn bryderus ynglŷn â cholli'r chweched dosbarth yn eu hysgolion. Ar ddechrau'r broses, nodwyd cyfle gan yr awdurdod lleol, ynghyd ag uwch arweinwyr y coleg a'r ysgolion, i gefnogi'r ganolfan newydd. Cydnabuont y byddai fforwm y gallai'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol gadw'r gallu i fonitro cynnydd a chyflawniadau eu cyn-ddisgyblion trwyddo yn fanteisiol i'r naill a'r llall.

Ffurfiont Bwyllgor Safon Uwch i ddarparu grŵp llywodraethu â nifer o randdeiliaid i gefnogi a herio gwaith Campws 6. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys uwch arweinwyr a llywodraethwyr o'r ddwy ysgol gysylltiedig, yn ogystal ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o'r coleg. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Penfro, sydd hefyd yn aelod o fwrdd corfforaeth y coleg.

I ddechrau, sefydlwyd y pwyllgor yn bwyllgor cysgodol yn ystod blwyddyn olaf darpariaeth chweched dosbarth yn y ddwy ysgol yn 2017-2018, ac mae bellach wedi hen ennill ei blwyf ac yn craffu ar holl ddarpariaeth Safon Uwch y coleg. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob tymor ac mae ganddo gylch gwaith eang sy'n cwmpasu: cynnydd a deilliannau dysgwyr; cynnig a chyflwyno'r

[11] Arolwg a gynhaliwyd trwy gonsortia rhanbarthol ym mis Hydref 2020; gweler ffigur 4.

cwricwlwm; cyfnod pontio, yn cynnwys cyngor ac arweiniad; cyrchfannau dysgwyr; staffio a diogelu.

Mae gwaith y pwyllgor wedi helpu cryfhau'r berthynas rhwng y tri darparwr dan sylw, gan arwain at ddeialog dryloyw ac agored sydd o fudd i'r ganolfan a'i dysgwyr. Mae'r ddwy ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf gyda dysgwyr ar ôl iddynt drosglwyddo i Gampws 6.

*"Mae'r disgyblion a'u rhieni / gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau cryf maen nhw wedi eu datblygu rhwng yr ysgol a Choleg Penfro yn fawr. Mae'r broses bontio gydweithredol sydd wedi'i chynllunio'n ofalus yn dechrau ym Mlwyddyn 9 oddeutu amser dewis opsiynau, ac yn parhau hyd ddiwrnod canlyniadau TGAU. Mae'r corff llywodraethol yn gwerthfawrogi'r diweddariadau rheolaidd ar gynnydd gan staff y coleg ynglŷn â'u cyn-ddisgyblion, ac maen nhw'n werthfawrogol iawn o'r wybodaeth maen nhw'n ei chael am gyrchfannau."* Pennaeth, Ysgol Penrhyn Dewi

*"Gwelais y cyfnod pontio rhwng yr ysgol a'r coleg yn broses esmwyth iawn. Gweithiodd yr ysgol a'r coleg gyda'i gilydd trwy drefnu digwyddiadau pontio er mwyn helpu'r holl fyfyrwyr. Roedd y digwyddiadau hyn yn effeithiol iawn. Pan adawais, dywedodd yr ysgol fod croeso i ni gyd fynd yn ôl i ymweld unrhyw bryd yn y dyfodol."* Cyn-ddisgybl yn Ysgol Bro Gwaun a myfyriwr Safon Uwch a myfyriwr lywodraethwr diweddar yng Ngholeg Penfro.

24 Fel dewis amgen yn lle cyfuno darpariaeth chweched dosbarth, mae'r mwyafrif o ysgolion wedi sefydlu trefniadau darpariaeth ar y cyd yn y sector ôl-16. Yn yr achosion hyn, mae chweched dosbarthiadau ysgolion, ac mewn lleiafrif o achosion, y coleg lleol, yn dod at ei gilydd i gytuno ar gyfres o gyrsiau y gallant eu cynnig i ddysgwyr ei gilydd. Gellir ysgogi trefniadau o'r fath gan awdurdodau lleol neu'r ysgolion a'r colegau eu hunain.

Mae Linc Conwy yn bartneriaeth sefydledig sy'n cynnwys chweched dosbarth 8 ysgol a'r coleg lleol. Mae partneriaeth Linc yn rhoi dewis o 21 cwrs lefel 3 i ddysgwyr chweched dosbarth, ac mae 6 o'r cyrsiau hyn ar gael yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y cyd â darpariaeth eu hysgol eu hunain, mae hyn yn sicrhau bod gan ddysgwyr ystod eang o opsiynau astudio. Mae gan yr awdurdod lleol rôl arweiniol mewn cydlynu a goruchwylio'r ddarpariaeth ar y cyd fel rhan o grŵp arweinyddiaeth sy'n cynnwys uwch arweinwyr o bob darparwr. Mae Linc yn gweithredu o dan ei frand unigryw ei hun fel partneriaeth, gyda ffocws clir ar y gwahanol gyrsiau a gynigir, yn hytrach nag ar y darparwyr unigol. Mae'n creu prosbectws o bob un o'i gyrsiau ac yn cynnal diwrnod agored dynodedig blynyddol Linc Conwy mewn canolfan digwyddiadau gyfagos a ddewisir er mwyn bod yn annibynnol ar yr holl ddarparwyr.

Cynhelir gwersi Linc Conwy mewn ysgolion amrywiol ac yn y coleg bob dydd Mercher yn ystod y tymor ysgol. Mae darparwyr yn cynllunio eu hamserlenni o gyrsiau a gyflwynir yn fewnol i sicrhau eu bod yn gydnaws â darpariaeth Linc Conwy. Mae'r awdurdod lleol yn rheoli ac yn ariannu'r cludiant i ddysgwyr symud rhwng gwersi mewn gwahanol ddarparwyr. Mae partneriaeth Linc yn galluogi dysgwyr i gymysgu â chyfoedion o bob cwr o'r sir, sydd â diddordebau a dyheadau tebyg.[12]

### Arweinyddiaeth a rheolaeth partneriaethau darpariaeth ar y cyd

25 Mae grwpiau arweinyddiaeth sy'n gyfrifol am bartneriaethau yn cynnwys uwch arweinwyr o bob darparwr, a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol yn aml. Maent yn ystyried materion strategol, yn ogystal â materion gweithredol. Er enghraifft, maent yn ystyried cynnig darparwr penodol i gyflwyno cwrs newydd i'w cynnig, yn cynnwys y manteision posibl i ddysgwyr ac unrhyw effeithiau negyddol ar ddarparwyr eraill. Mae mwyafrif yr arweinwyr yn craffu ar ansawdd darpariaeth partneriaeth a'r safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn ffordd addas, ac mewn ychydig o bartneriaethau, mae hyn yn drylwyr ac effeithiol. Mewn lleiafrif o achosion, ar gyfer darpariaeth a gyflwynir yn allanol, nid yw arweinwyr yn cael golwg ddigon clir ar safonau gwaith dysgwyr nac ar ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu.

26 Mae lleiafrif o ddarparwyr sy'n rhannu darpariaeth ag ysgolion neu golegau eraill wedi llunio cytundebau ysgrifenedig sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir. Ond mae lleiafrif ohonynt yn dibynnu gormod ar ddealltwriaeth lafar ac ewyllys da ar y ddwy ochr. Mewn lleiafrif o achosion, mae perthnasoedd gwaith rhwng darparwyr yn dibynnu'n ormodol ar gytundebau anffurfiol a pherthnasoedd rhyngbersonol rhwng uwch arweinwyr. Gellir tarfu ar drefniadau o'r fath os bydd newidiadau mewn staffio neu amgylchiadau yn y dyfodol yn arwain at gamddealltwriaeth, camddehongli neu anghytuno.

[12] I ymateb i bandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2020, mabwysiadodd y bartneriaeth drefniadau dysgu o bell yn gyfan gwbl neu'n rhannol er mwyn lleihau risg haint i ddysgwyr.

27 Caiff mwyafrif o bartneriaethau ar gyfer darpariaeth ar y cyd eu rheoli i raddau helaeth o dan arweinyddiaeth y darparwyr eu hunain. Mewn lleiafrif o bartneriaethau, mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cydlynu grwpiau arweinyddiaeth. Pan fydd gan gydlynwyr awdurdodau lleol rôl weithredol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn effeithiol o ran annog datblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol rhwng darparwyr. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae'r graddau y mae gan awdurdodau lleol swyddogion penodol sy'n ymgymryd â rolau cydlynydd 14-19 neu 16-19 wedi gostwng. Mae hyn wedi arwain yn rhannol at reoli a goruchwylio darpariaeth partneriaethau yn anghyson ledled Cymru.

28 Mae gan awdurdodau lleol rôl sefydliadol a goruchwylio ganolog ar gyfer darpariaeth ar y cyd ar draws lleiafrif o ardaloedd, yn cynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae partneriaethau o'r fath yn tueddu i fod yn fawr, yn cynnwys sawl ysgol a choleg. Mae llawer o'r partneriaethau hyn wedi'u trefnu'n dda gyda chytundebau ysgrifenedig yn amlinellu cyfrifoldebau a disgwyliadau partneriaid, yn cynnwys terfynau amser clir a chalendr gweithgareddau cytûn. Yn nodweddiadol, mae'r darparwyr dan sylw yn cytuno ar ddiwrnod cyffredin bob wythnos, neu ddau hanner diwrnod ar wahân bob wythnos fel arall, ac yn ystod y cyfnod hwn, gall dysgwyr deithio rhyngddynt a chymryd rhan yn eu cyrsiau.

29 Mae union rôl yr awdurdod lleol mewn partneriaethau yn amrywio ledled Cymru. Yn gyffredinol, maent yn cydlynu cyfarfodydd arweinwyr, ac i raddau gwahanol, yn rheoli prosesau gwella. Yn weithredol, maent yn cydlynu amserlenni cyrsiau partneriaethau, yn trefnu biliau am ddarpariaeth ac yn cydlynu cludiant i ddysgwyr symud rhwng darparwyr. Mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn trefnu ac yn ariannu trefniadau cludiant ychwanegol ar gyfer gwersi partneriaeth.

30 Mae lleiafrif o ysgolion yn rhan o drefniadau partneriaeth wedi'u harwain gan ddarparwyr. Yma, mae ysgolion yn arwain y ffordd o ran ysgogi gwaith y bartneriaeth, sy'n aml yn cynnwys rhwng dwy a phedair ysgol yn unig. Mae'r ffaith fod maint y partneriaethau hyn yn llai yn hwyluso trefniadaeth ymatebol i ddiwallu anghenion pob darparwr a'i ddysgwyr. Er enghraifft, gall partneriaethau o'r fath wneud addasiadau i'r amserlen i fodloni dewisiadau pwnc nifer gymharol fach o ddysgwyr. Fodd bynnag, caiff llawer o bartneriaethau o'r fath ledled Cymru eu rheoli heb gytundebau ysgrifenedig sy'n briodol fanwl nad ydynt yn mynd i'r afael â rolau a chyfrifoldebau, ad-daliadau ariannol neu drefniadau sicrhau ansawdd yn ddigon da. Mae perygl iddynt ddibynnu'n ormodol ar ddealltwriaeth ac ewyllys da ar y ddwy ochr rhwng uwch arweinwyr sy'n cynrychioli'r darparwyr dan sylw.

> Mae partneriaeth 'Trisgol' yn cynnwys chweched dosbarth y tair ysgol yng ngogledd Powys. Mae'r ysgolion hyn wedi cysoni amserlenni gan gynllunio amser teithio i ddysgwyr symud rhwng eu gwersi chweched dosbarth yn y gwahanol ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r bartneriaeth hon trwy drefnu ac ariannu'r cludiant ar gyfer dysgwyr. Hefyd, mae'r bartneriaeth wedi dechrau defnyddio prosiect e-sgol a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i alluogi cyswllt fideo dysgu o bell rhwng y gwahanol ysgolion.

31 Mewn ychydig o achosion, mae gwahaniaethau o ran polisïau, protocolau a systemau yn ffurfio rhwystr rhag gwaith partneriaeth cynhyrchiol rhwng darparwyr. Er enghraifft, mae gwahaniaethau gweinyddol rhwng awdurdodau lleol, yn ogystal â ffactorau gwleidyddol, yn creu rhwystrau sylweddol rhag sefydlu a chynnal partneriaethau sy'n rhychwantu'r ffin rhwng dau awdurdod lleol cyfagos. Yn yr un modd, efallai na fydd coleg ac ysgol sydd mewn sefyllfa dda i weithio gyda'i gilydd yn gwneud hynny o ganlyniad i'r gwahanol drefniadau gweinyddol, cyllido a goruchwylio y maent yn gweithredu oddi mewn iddynt.

32 Dywed mwyafrif o uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth nad yw'r berthynas â'u colegau lleol mor gryf ag ydyw gydag ysgolion eraill, ar y cyfan. Mae uwch arweinwyr mewn colegau yn cydnabod hefyd fod hyn yn broblem rhwng colegau a lleiafrif o ysgolion ledled Cymru. Dywedant fod ymdeimlad o gystadleuaeth a diffyg tryloywder ac ymddiriedaeth rhwng y ddau sector. Mewn ychydig o achosion, mae tensiynau tebyg yn bodoli rhwng ysgolion.

33 Nid oes chweched dosbarth mewn traean o ysgolion, ac felly maent yn bwydo i mewn i ddarpariaeth ôl-16 gyfunol. Dywedodd y colegau a'r ysgolion 11-16 yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r gwaith hwn fod perthnasoedd gweithio cryf rhwng yr ysgolion hyn a darparwyr ôl-16 cyfagos. Mae'r diffyg cystadleuaeth yn arwain at gyfathrebu sy'n helpu sicrhau cyngor, arweiniad a threfniadau pontio diduedd ar gyfer dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16. Yn yr achosion hyn, mae trefniadau pontio yn gynhwysfawr ac mae gweithgareddau rhagflas wedi'u gwreiddio trwy gydol cyfnod allweddol 4.

34 Mae trefniadau cyfunol o'r fath yn y sector ôl-16 wedi dod yn gynyddol gyffredin. Maent wedi hen ennill eu plwyf yng ngorllewin Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Wrecsam, a rhannau o Gaerdydd ac Abertawe. O fewn y 10 mlynedd ddiwethaf, maent wedi cael eu cyflwyno mewn rhannau o Flaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Benfro a Thorfaen.

## Cyllido

35 Mae'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid i'w hysgolion, o fewn paramedrau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 (Prydain Fawr, 2010), yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai achosion, mae dyrannu cyllid chweched dosbarth ysgolion gan awdurdodau lleol yn dibynnu ar nifer y dysgwyr, a maint eu rhaglenni astudio. Mewn achosion eraill, mae cyllid yn dibynnu'n unig ar nifer y dysgwyr sydd wedi eu cofrestru yn y chweched dosbarth. Mewn ychydig iawn o achosion, neilltuir cyllid yn ôl nifer y pynciau a gynigir gan yr ysgol, ac nid yw'n ddibynnol ar nifer y dysgwyr sydd wedi eu cofrestru na faint o gyrsiau maent yn eu hastudio. Defnyddir y mecanwaith cyllido hwn lle mae awdurdodau lleol yn nodi bod angen cynnal y dewis o bynciau sydd ar gael yn lleol er bod nifer y dysgwyr yn fach, er enghraifft mewn ardaloedd prin eu poblogaeth.

36 Mewn ychydig o achosion, mae'r ffordd y caiff cyllid chweched dosbarth ysgolion ei ddyrannu yn arwain at densiwn rhwng ysgolion, neu rhwng ysgolion a'u hawdurdodau lleol. Er enghraifft, gall hyn ddeillio o fethodolegau cyllido sy'n seiliedig ar gofrestriadau dysgwyr a ragwelir a all gymell goramcangyfrif gan ychydig iawn o ysgolion.

37 Pan fydd chweched dosbarth yn darparu ar gyfer nifer fach o ddysgwyr, yn aml, nid ydynt yn hunangynhaliol yn ariannol heb gefnogaeth gan adnoddau'r ysgol ehangach. Yn yr achosion hyn, mae costau staffio gwersi yn uchel o gymharu â'r incwm a gaiff ysgolion ar gyfer eu carfan fach o ddysgwyr.

38 Caiff colegau eu cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u dyfarniadau grant blynyddol. Os bydd cryn dipyn yn fwy o ddysgwyr na'r hyn a ragwelwyd yn ymuno â choleg mewn unrhyw flwyddyn benodol, gall arweinwyr colegau wneud cais am gyllid ychwanegol. Mae nifer gymharol uchel y dysgwyr sy'n cael eu recriwtio gan golegau unigol yn golygu bod incwm ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed yn bodloni costau cynnal darpariaeth, ar y cyfan. Mae yna ychydig o eithriadau, lle caiff darpariaeth arbenigol ar gampysau bach, ar y cyfan, ei chymorthdalu, i bob pwrpas, trwy incwm ar gyfer cyrsiau eraill. Mae bron pob coleg yn sicrhau incwm yn ogystal â chyllid cyhoeddus uniongyrchol, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant i fusnesau ar sail fasnachol, ac o ffioedd dysgu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth addysg uwch y maent yn ei chyflwyno. Mae swm incwm ychwanegol o'r fath yn amrywio'n sylweddol rhwng y colegau ledled Cymru.

39 Mewn lleiafrif o achosion, mae trefniadau costau ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn ffurfiol a chlir. Mae ychydig iawn o bartneriaethau yn pwysoli cyfraddau ad-daliadau yn dibynnu ar y pwnc penodol dan sylw. Maent yn ystyried costau cysylltiedig cyflwyno pynciau unigol, gan gynnwys gweithgareddau ymarferol a chostau defnyddiau traul, er enghraifft. Nid yw mwyafrif o ddarparwyr sy'n rhan o bartneriaethau ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn rhoi ad-daliadau ariannol i'w gilydd am gyflwyno darpariaeth. Mae hyn yn golygu bod darparwyr sy'n derbyn cryn dipyn yn fwy o ddysgwyr yn eu gwersi nag y maent yn eu hanfon i ymuno â gwersi darparwyr eraill, yn cymorthdalu'r bartneriaeth, i bob pwrpas.

40 Mewn ychydig iawn o achosion, mae darparwyr yn sicrhau symiau bach o gyllid ychwanegol trwy osod eu cyfleusterau ar brydles i ddarparwyr eraill. Er enghraifft, mae Ysgol Emrys Ap Iwan yn gosod gofod ar brydles i goleg lleol gynnal cyrsiau cymunedol, ac mae Coleg y Cymoedd yn gosod gofodau addysgu ar brydles i ysgolion arbennig lleol.

## Gwella ansawdd

41 Pan gaiff darpariaeth ei rhannu, mae mwyafrif o arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad cymharol cyrsiau a gyflwynir gan ddarparwyr eraill. Caiff yr ymwybyddiaeth hon ei helpu gan awdurdodau lleol sy'n rhannu agweddau ar ddeilliannau perfformiad o ystod o fesurau, fel sgorau gwerth ychwanegol[13], rhwng y chweched dosbarth ym mhob un o'u hysgolion. Mewn ychydig o achosion, caiff colegau eu cynnwys mewn trefniadau lleol neu ranbarthol hefyd i rannu deilliannau perfformiad ôl-16 rhwng darparwyr. Mae gan leiafrif o uwch arweinwyr ddarlun gwybodus a manwl o ansawdd y ddarpariaeth a gyflwynir gan ddarparwyr partneriaeth yn seiliedig ar ystod ddefnyddiol o dystiolaeth. Er enghraifft, mae'r arweinwyr hyn yn defnyddio gwerthusiadau ei gilydd o wersi a chofnodion cynnydd dysgwyr dros gyfnod, ac yn casglu barn dysgwyr am eu gwersi hefyd. Mae

[13] Mesurau sy'n cymharu deilliannau cymhwyster dysgwyr ar lefel 3 â'u cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU, i fesur y cynnydd y maent yn ei wneud.

ychydig iawn o ddarparwyr yn arsylwi ac yn gwerthuso addysgu, dysgu ac asesu mewn darparwyr partner yn uniongyrchol fel rhan o'u harferion gwella.

42 Mae'r rhan fwyaf o athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr o ddarparwyr eraill yn rhannu graddau gwaith y dysgwyr hyn dair neu bedair gwaith y flwyddyn gydag ysgolion neu golegau'r dysgwyr eu hunain, a gyda'r dysgwyr eu hunain yn ogystal, a'u rhieni. Maent yn rhoi adroddiadau cynnydd ysgrifenedig i rieni o leiaf unwaith y flwyddyn hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhannu data ar bresenoldeb ar gyfer dysgwyr perthnasol, ac yn cyfleu unrhyw achosion o absenoldebau heb esboniad yn brydlon. Mae mwyafrif y darparwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ag arweinwyr bugeiliol yn ysgolion neu golegau'r dysgwyr eu hunain pan fydd unigolion yn gwneud cynnydd annigonol ac mewn perygl o dangyflawni. Yn yr achosion hyn, mae hyn yn galluogi arweinwyr bugeiliol i ddarparu cefnogaeth werthfawr ar gyfer dysgwyr o'r fath.

43 Mae effeithiolrwydd y prosesau gwella ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn anghyson ledled Cymru. Mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan arweinwyr drefniadau sicrhau ansawdd ffurfiol ar waith. Nid yw'r darparwyr hyn yn rhannu gwerthusiadau perthnasol o ddarpariaeth gyda darparwyr partner sydd â dysgwyr yn mynychu eu gwersi. Mewn lleiafrif o achosion lle mae dysgwyr yn teithio ar gyfer eu gwersi, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gwerthuso safon gwaith dysgwyr mewn gwersi a llyfrau yn ddigon da. Mewn ychydig o achosion, mae'r diffyg cytundebau ysgrifenedig rhwng darparwyr sy'n ymgymryd â threfniadau partneriaeth o'r fath yn golygu nad yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am hyn.

44 Dywed llawer o arweinwyr fod deilliannau cymhwyster dysgwyr ar gyfer cyrsiau partneriaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau'r ysgol ei hun, ar y cyfan, ond maent yn ymwybodol o ychydig o eithriadau lle mae perfformiad yn wannach. Bron ym mhob achos, y darparwr sy'n cynnal y gwersi sy'n gyfan gwbl gyfrifol am gamau gwella, a chymerir y camau hyn yn unol â'u prosesau mewnol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae darparwyr yn cydweithio i gyfnewid cyfrifoldeb am gyflwyno cyrsiau penodol i fynd i'r afael â thanberfformio a nodwyd.

45 Mewn lleiafrif o achosion, mae prosesau cynllunio gwelliant ysgolion ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn gyffredinol yn llai datblygedig na'r rhai ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4. Nid yw ychydig o uwch arweinwyr yn gwerthuso cynnydd a deilliannau cymhwyster dysgwyr yn systematig ar gyfer darpariaeth ar y cyd i'r un graddau â'r rhai a gyflawnir gan ddysgwyr sy'n mynychu darpariaeth y darparwyr eu hunain yn unig.

46 Mae ychydig o bartneriaethau yn gwerthuso darpariaeth ar y cyd mewn ffordd systematig a thryloyw sy'n hygyrch i bob darparwr sy'n gysylltiedig. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ysgol a choleg i wneud penderfyniadau gwybodus wrth gynllunio eu cynnig cwricwlwm, ac yn eu helpu i roi cyngor ac arweiniad addas i ddysgwyr am y cyrsiau sydd ar gael trwy ddarparwyr eraill. Yn aml, mae cydlynydd awdurdod lleol ynghlwm â chynlluniau mwy ar gyfer darpariaeth ar y cyd. Mae gan y cydlynwyr rôl allweddol mewn goruchwylio, ac maent yn helpu adolygu ac adrodd ar ansawdd y ddarpariaeth, yn ogystal â chynnydd dysgwyr, mewn ffordd effeithiol a systematig.

Mae Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys 6 chweched dosbarth yng ngogledd Gwynedd, y 5 chweched dosbarth yn ysgolion Ynys Môn, a darpariaeth ar 3 o gampysau Grŵp Llandrillo Menai. Mae gan gynrychiolydd awdurdod lleol gyfrifoldeb rheoli am waith y consortiwm ar draws y ddau awdurdod lleol. Maent yn cydlynu prosesau gwella yn effeithiol, sy'n cynnwys adolygiad cynnydd ar lefel dysgwr bob hanner tymor, a dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau dysgwyr. Maent yn sicrhau bod canlyniadau gweithgareddau o'r fath yn cael eu rhannu â phob aelod ddarparwr ar draws dau glwstwr y bartneriaeth o fewn y consortiwm.

Mae is-grŵp ansawdd y consortiwm yn cynnwys uwch arweinwyr o bob darparwr. Mae ail grŵp ar gyfer arweinyddiaeth strategol yn cynnwys penaethiaid yr ysgolion, ynghyd â'r prif weithredwr o'r coleg a rheolwr y consortiwm. O safbwynt gweithredol a strategol yn y drefn honno, mae'r ddau grŵp yn craffu ar ganlyniadau hunanwerthuso i nodi camau gwella perthnasol, a bwrw ymlaen â nhw.

Mae gweithgareddau hunanasesu'r consortiwm yn darparu trosolwg gwerthusol defnyddiol ar gyfer pob un o'r cyrsiau a gyflwynir fel rhan o ddarpariaeth ar y cyd ar draws yr holl ddarparwyr sy'n gysylltiedig. Mae'r wybodaeth yn cynnwys disgrifiadau ansoddol o gryfderau a gwendidau, yn ogystal â mesurau cwblhau, cadw a chyrhaeddiad gradd gwerth ychwanegol. Mae darparwyr lletyol yn gyfrifol am asesu eu darpariaeth eu hunain. Yn ychwanegol, fel rhan o'r broses hunanwerthuso ehangach, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o'r gwahanol ddarparwyr yn arsylwi gwersi a gyflwynir gan athrawon ei gilydd. Mae gan y consortiwm broses gwyno ffurfiol i alluogi darparwyr i godi unrhyw bryderon am y ddarpariaeth a gyflwynir mewn ysgolion eraill neu gan y coleg.

### Cynllunio strategol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg

47 Yn y mwyafrif o chweched dosbarthiadau ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig, mae dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn ysgolion eraill, gan ehangu'r dewis o bynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi helpu ysgolion i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyrsiau sy'n denu llai o ddysgwyr. Er enghraifft, mae'r ysgolion yn cyfuno eu grwpiau addysgu ar gyfer cyrsiau Safon Uwch mewn mathemateg bellach, cerddoriaeth a chyfrifiadura. Hefyd, maent yn ehangu eu darpariaeth trwy gyflwyno pynciau sy'n gymharol newydd i ddysgwyr 16 mlwydd oed, fel seicoleg a chymdeithaseg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

48 Mae partneriaethau ôl-16 ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn tueddu i gael eu harwain a'u rheoli gan y darparwyr eu hunain. Mae mwyafrif yr ysgolion hyn yn gweithio gyda'i gilydd, yn aml mewn parau neu fel partneriaeth o dair ysgol, i rannu darpariaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys partneriaeth Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Bryn Tawe yn Abertawe. Mae'r tair ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, sef Ysgol Gyfun Plasmawr, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern wedi ffurfio partneriaeth o'r fath hefyd. Yn aml, caiff graddau'r gwaith partneriaeth rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig eraill mewn ardaloedd llai poblog ei gyfyngu gan yr amser sydd ei angen i ddysgwyr deithio rhyngddynt. Mae ychydig ohonynt yn manteisio ar brosiect e-sgol i ddarparu dysgu o bell trwy gyswllt fideo i wersi ei gilydd.

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn Abertawe yn cyflwyno eu darpariaeth chweched dosbarth trwy bartneriaeth gydlynus rhwng y ddwy ysgol. Mae gan y bartneriaeth hon hunaniaeth unigryw gyda phrosbectws cyffredin a nosweithiau agored lle rhoddir gwybod i ddarpar ddysgwyr chweched dosbarth a'u rhieni am ddarpariaeth sydd ar gael yn y ddwy ysgol. Mae mwyafrif y dysgwyr chweched dosbarth yn yr ysgolion yn dewis astudio o leiaf un pwnc a gyflwynir gan yr ysgol bartner. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi cytundebau ysgrifenedig ar waith sy'n mynd i'r afael ag ystod addas o drefniadau a disgwyliadau gweithio. Mae'r cytundeb hwn yn diffinio'r bartneriaeth ac yn helpu sicrhau cysondeb pan fydd uwch bersonél yn newid.

49 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig cyfagos yn cynnal perthnasoedd gweithio cryf. Er eu bod yn aml wedi eu gwahanu gan bellterau sylweddol, mae'r ysgolion hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu eu staff a/neu rannu darpariaeth. Fodd bynnag, yn aml, ni chaiff perthnasoedd o'r fath eu hatgyfnerthu gan gytundebau ysgrifenedig sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau yn glir. Yn gyffredinol, nid yw darparwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd yn lleol, er enghraifft datblygiad proffesiynol aelodau staff.

50 Mae llawer o athrawon pwnc sy'n cyflwyno gwersi chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cydweithio'n dda i ddatblygu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu sydd wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Mae hyn wedi cael ei ysgogi gan y cymunedau cymharol glos o athrawon sy'n cyflwyno gwersi pwnc yn Gymraeg mewn ysgolion dwyieithog, yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig, ac wedi cyfrannu atynt. Mae cydweithio o'r fath yn aml yn gydweithio ad-hoc, sy'n digwydd rhwng athrawon unigol yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r ystod gymharol fach o adnoddau addysgu cyhoeddedig ôl-16 cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, er ei fod yn werth chweil, yn aml, mae cydweithio o'r fath yn anffurfiol a gall fod yn anghyson.

51 Daeth adolygiad thematig Estyn o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol i'r casgliad fod y rhan fwyaf ohonynt wedi nodi'n briodol sut roeddent yn bwriadu cynyddu cyfran y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion (Estyn, 2016). Er bod SAUau y tu allan i gwmpas Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, roedd ychydig o enghreifftiau o drefniadau darpariaeth ar y cyd yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn chweched dosbarthiadau ysgolion neu golegau eraill.

52 Mewn lleiafrif o achosion, nid yw cynllunio ar y lefel leol yn ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn ddigon gofalus. Nid yw awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gyflwyno neu hyrwyddo addysgu ac asesu ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu hawdurdodau lleol. At ei gilydd, nid yw colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn ehangu ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i'w dysgwyr ôl-16. Nid ydynt yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i gydweithio ar ddarpariaeth sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn elfennau o astudiaethau galwedigaethol yn y sector ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg.

53 Gan nad yw cyrsiau galwedigaethol yn aml ar gael yn Gymraeg yn lleol, mae llawer o uwch arweinwyr yn teimlo bod ganddynt ddyletswydd i gynnig cyfle i'w dysgwyr barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn chweched dosbarth yr ysgol. Gall hyn achosi cyfyng-gyngor wrth ddarparu arweiniad i ddysgwyr am ddarpariaeth alwedigaethol ôl-16 sydd yn aml ar gael yn Saesneg yn unig, er enghraifft mewn coleg cyfagos. Yn sgil hyn, gall ychydig o ddysgwyr gofrestru ar gyrsiau Safon Uwch mewn chweched dosbarth ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn addas ar eu cyfer.

54 Mae ychydig o arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r farn y bydd cyflwyno neu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Safon Uwch mewn colegau cyfagos yn lleihau hyfywedd eu chweched dosbarth eu hunain. Maent yn credu y dylai cynllunio cwricwlwm lleol yn gydweithredol bwysleisio datblygu darpariaeth nad yw eisoes ar gael yn Gymraeg yn lleol. Byddai hyn yn cynyddu ystod y ddarpariaeth sydd ar gael tra'n osgoi cystadleuaeth. Mewn llawer o achosion, byddai hyn yn cynnwys colegau'n canolbwyntio ar gynyddu cyfran y ddarpariaeth alwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na dyblygu darpariaeth Safon Uwch os yw ar gael gerllaw.

55 Mae dysgwyr yn sôn am gludiant fel ffactor allweddol wrth ddewis darparwr ôl-16. Mewn ychydig o achosion, dywed dysgwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg y byddent yn ystyried darparwr ôl-16 cyfrwng Saesneg cyn y darparwr cyfrwng Cymraeg y maent yn ei ffafrio, oherwydd materion yn ymwneud â dibynadwyedd a chostau cludiant.


56 Mewn ychydig o achosion, nid yw awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddigon effeithiol i fesur effaith unrhyw newidiadau i fynediad dysgwyr chweched dosbarth at fysiau ysgol wrth iddynt ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg. Dywed arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â chweched dosbarth fod newidiadau i drefniadau cludiant ysgol mewn perygl o achosi anfantais anghymesur i ddysgwyr chweched dosbarth sy'n siarad Cymraeg. Yn aml, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn darparu ar gyfer dysgwyr o ardal ddaearyddol eang, tra bod addysg cyfrwng Saesneg yn aml ar gael yn agosach at gartrefi dysgwyr. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae bysiau ysgol yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg hyn. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddysgwyr chweched dosbarth sy'n siarad Cymraeg yn wynebu heriau sylweddol wrth gymudo i'r ysgol.

# Gweithio mewn partneriaeth

## Mathau o bartneriaeth


57 I sefydlu darlun llawn o bartneriaethau chweched dosbarth ledled Cymru, gofynnom ni i'r 4 consortiwm rhanbarthol gydlynu ymarfer i ddosbarthu chweched dosbarth pob ysgol yn ôl un o 5 categori partneriaeth diffiniedig (gweler Atodiad 2). Mae canlyniadau'r ymarfer hwn yn dangos bod mwyafrif yr ysgolion yn rhan o ddarpariaeth ôl-16 ar y cyd o ryw fath. Mae ychydig iawn o ysgolion, sef 1%, yn gweithredu i bob pwrpas fel un endid ar y cyd trwy gydffederasiwn ôl-16, mae 22% ohonynt yn rhan o gonsortiwm agos, 14% yn cydweithio a 22% yn cydweithredu â darparwyr eraill. Dim ond 8% o ysgolion sy'n dweud bod eu chweched dosbarth yn gweithredu'n annibynnol heb rannu unrhyw ddarpariaeth ôl-16. Nid oes chweched dosbarth yn y 33% sy'n weddill o ysgolion uwchradd, ac felly maent yn bwydo i mewn i chweched dosbarthiadau cyfunol yn rhywle arall.

**Ffigur 4: Ysgolion yng Nghymru yn ôl math o bartneriaeth ôl-16 – pob ysgol uwchradd, yn cynnwys ysgolion heb chweched dosbarth**




58 Trwy ddiystyru ysgolion nad oes ganddynt eu chweched dosbarthiadau eu hunain, mae canlyniadau'r arolwg hyn yn dangos bod 88% o chweched dosbarthiadau ysgolion yn rhan o bartneriaeth o ryw fath, gyda'r 12% sy'n weddill yn gweithredu'n annibynnol ar ddarparwyr eraill (ffigur 5). Fodd bynnag, mae cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol ysgolion i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2019 yn awgrymu mai tua 60% o chweched dosbarthiadau yn unig oedd â dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu a gyflwynir gan ddarparwr gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys 9% o ddysgwyr a 2% yn unig o'r holl weithgareddau dysgu chweched dosbarth (Llywodraeth Cymru, 2020e). Cynhaliwyd yr arolwg o ffigurau 4 a 5 ym mis Hydref 2020, ac mae'r data ôl-16 blynyddol diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â 2018-2019. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau'n debygol nad yw trefn ysgolion o gofnodi'r wybodaeth benodol hon yn eu cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol yn gywir ar draws pob rhanbarth.

**Ffigur 5: Ysgolion yng Nghymru yn ôl math o bartneriaeth ôl-16 – ysgolion sydd â chweched dosbarth yn unig**




59 Fel rhan o'u cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol, dylai ysgolion nodi unrhyw weithgareddau y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw gyda darparwyr eraill. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ein harolwg ym mis Hydref 2020 yn awgrymu bod cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol gan ysgolion yn debygol o adrodd yn annigonol am raddau darpariaeth ar y cyd ledled Cymru. Mae'r ffaith nad yw darparwr pob gweithgaredd dysgu yn cofnodi hyn yn gywir yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fesur poblogrwydd trefniadau o'r fath, a'r deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y modd hwn. Gallai gwybodaeth o'r fath brofi'n ddefnyddiol wrth lywio strategaeth ôl-16 ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

60 Ychydig o golegau yn unig yng Nghymru sy'n rhan o drefniadau partneriaeth ar y cyd ôl-16 arwyddocaol â darparwyr eraill. Er enghraifft, mae Coleg Pen-y-bont yn gweithio gydag Ysgol Gyfun Pen-coed i gynnig darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Chweched Dosbarth Pen-y-bont. Mae'r coleg yn trefnu bod darpariaeth ar gael i ddysgwyr o chweched dosbarth ysgolion eraill hefyd trwy drefniadau partneriaeth ôl-16 yr awdurdod lleol. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn aelod o bartneriaethau tebyg wedi'u harwain gan awdurdodau lleol ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

## Darpariaeth ôl-16 ar y cyd

61 I ddisgyblion iau, mae llawer o golegau yng Nghymru yn darparu cyrsiau galwedigaethol cyfnod allweddol 4 i ddisgyblion o ysgolion cyfagos. Mae'r gwersi ar gyfer y disgyblion hyn, sydd rhwng 14 ac 16 mlwydd oed, yn cael eu cynnal yn nodweddiadol ar un prynhawn dynodedig yr wythnos. Mae trefniadau o'r fath wedi bod yn gyffredin ers i Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 nodi y dylid cynnwys o leiaf 5 cwrs galwedigaethol ym mhob cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 mlwydd oed. Yn sgil y diwygiad yn 2014, lleihawyd y gofyniad hwn i dri chwrs galwedigaethol (Llywodraeth Cymru, 2014a). Os caiff ei ddeddfu, bydd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn dileu'r gofyniad hwn i bob pwrpas (Llywodraeth Cymru, 2020b).

62 Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr 16-19 mlwydd oed sy’n mynychu chweched dosbarthiadau ysgolion eu bod yn gallu dewis y pynciau roeddent eisiau eu hastudio. Nid oedd ychydig ohonynt yn cael cyfle i astudio pynciau llai poblogaidd sydd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft cyrsiau mewn gwleidyddiaeth ac economeg.

63 Mae’r mwyafrif o chweched dosbarthiadau ysgolion sy’n defnyddio trefniadau partneriaeth i ehangu eu cynnig, yn cyfuno grwpiau yn synhwyrol mewn pynciau lle mae nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru yn isel. Dywed dysgwyr, os na chaiff amserlenni eu cydlynu’n briodol neu os nad yw trefniadau teithio yn ddigon dibynadwy, eu bod yn llai tebygol o argymell y cyrsiau sydd wedi eu heffeithio i ffrindiau. Gall hyn leihau poblogrwydd y cyrsiau hyn ymhellach.

64 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sicrhau bod eu hamseroedd gwersi ac egwyliau yn cael eu cydamseru er mwyn cefnogi darpariaeth chweched dosbarth ar y cyd. Er mwyn caniatáu ar gyfer gwahanol amserlenni, mae llawer o bartneriaethau yn dynodi diwrnod, neu un bore ac un prynhawn ar wahân, yr wythnos fel arall er mwyn i ddysgwyr deithio i ddarparwyr eraill ar gyfer gwersi. Mewn llawer o achosion, mae cyrsiau a gyflwynir mewn partneriaeth yn cynnwys llai o wersi sy’n para’n hwy na’r arfer; mae hyn yn helpu lleihau’r amser a dreulir yn teithio i ganolfannau eraill, ac oddi yno. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon, yn hytrach na dysgwyr, yn teithio rhwng darparwyr i gyflwyno gwersi.

65 Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn cyflwyno dewis eang o opsiynau astudio chweched dosbarth i ddysgwyr. O gynnwys unrhyw ddarpariaeth a gyflwynir mewn partneriaeth, roedd dysgwyr mewn 75% o chweched dosbarthiadau ysgolion yn astudio ar draws ystod o fwy na 25 o wahanol bynciau yn 2018-2019. Fodd bynnag, roedd dysgwyr mewn 9% ohonynt yn astudio ar draws ystod o 20 cwrs neu lai. Yn yr achosion hyn, gallai mwy o gyrsiau fod wedi cael eu cynnig, ond heb eu dewis gan unrhyw ddysgwyr ar gyfer y flwyddyn honno. Mae’r rhan fwyaf o chweched dosbarthiadau ysgolion yn cynnig o leiaf un cwrs galwedigaethol lefel 3. Mae’r nifer uchaf o gofrestriadau galwedigaethol mewn chweched dosbarthiadau ysgolion ledled Cymru ar gyfer cyrsiau mewn chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol, gwyddoniaeth gymhwysol, busnes a gwasanaethau cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2020e).

66 Mae ychydig o ddarparwyr yn gweithio gyda’i gilydd i gyflwyno gwersi i ddysgwyr ei gilydd trwy fodelau dysgu o bell sy’n ymgorffori cyfran sylweddol o addysgu trwy gyswllt fideo.

**Astudiaeth achos 2: e-sgol – menter dysgu o bell wedi'i galluogi gan dechnoleg**

Menter wedi'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru yw prosiect e-sgol i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed astudio cyrsiau nad ydynt ar gael mor rhwydd iddynt fel arall. Mae'n seiliedig ar gynllun presennol e-sgoil yn Yr Alban. Nod y naill brosiect a'r llall yw gwella mynediad at gyrsiau i ddysgwyr mewn ardaloedd mwy gwledig, a gwella mynediad at wersi a gyflwynir trwy gyfrwng yr Aeleg neu'r Gymraeg. Cyflwynir y prosiect yng Nghymru mewn clystyrau ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys gwersi a gyflwynir yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Yn 2018, grŵp o ysgolion yng Ngheredigion oedd y cyntaf i beilota prosiect e-sgol ac roeddent yn ei ddefnyddio i gyflwyno gwersi Safon Uwch mewn mathemateg bellach a drama, yn ogystal â cherddoriaeth TGAU. Yn fwy diweddar, mae chweched dosbarthiadau ysgolion uwchradd yng ngogledd Powys wedi ffurfio clwstwr yn cynnig 9 pwnc Safon Uwch i gyd. Er enghraifft, gall dysgwyr Ysgol Llanfyllin ddewis o blith cyrsiau Safon Uwch mewn Ffrangeg, gwleidyddiaeth, addysg grefyddol a Chymraeg ail iaith trwy brosiect e-sgol.

Cynhelir y rhan fwyaf o wersi trwy gyswllt fideo rhwng yr athro a'r dysgwyr sy'n eistedd mewn ystafelloedd dosbarth ag offer addas yn eu hysgolion. Caiff dysgwyr ddefnyddio adnoddau gwersi, gallant weld eu hathro yn ysgrifennu yn fyw, a gallant gymryd rhan mewn sgyrsiau gyda'r athro, a gyda'i gilydd. Mae dysgwyr yn cymryd nodiadau yn ystod y wers ac yn cwblhau eu gwaith yn electronig, naill ai trwy ei ysgrifennu â llaw gan ddefnyddio sgrin gyffwrdd neu drwy deipio. Mae hyn yn rhoi mynediad i'r athro at waith y dysgwr ar unwaith. Mae dysgwyr na allant fynd i'r ysgol yn gallu ymuno yn eu gwersi o gartref. Caiff y cymwysiadau meddalwedd a ddefnyddir eu gweld yn aml yn y gweithle, a threfnodd Llywodraeth Cymru iddynt fod ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl ddysgwyr ac athrawon yng Nghymru. Mae dysgwyr yn teithio i gyfarfod â'u hathrawon e-sgol wyneb yn wyneb i drafod eu dysgu ac adolygu cynnydd. Yn dibynnu ar yr ysgolion sy'n cymryd rhan a'r pellter rhyngddynt, cynhelir hyn bob pythefnos, bob mis, neu bob hanner tymor.

Mae trefniadau ariannol yn amrywio rhwng clystyrau e-sgol; nid yw ysgolion yng nghlwstwr gogledd Powys yn ad-dalu ei gilydd yn ariannol ar hyn o bryd, ni waeth beth yw eu hymrwymiadau addysgu na nifer eu dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y gwersi. Caiff mesurau sicrhau ansawdd a gwella ar gyfer darpariaeth a gyflwynir trwy e-sgol eu pennu gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan. At ei gilydd, mae'r rhain yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth, gan gynnwys barn dysgwyr, arsylwadau addysgu a dysgu, olrhain cynnydd dysgwyr a gwerthusiadau o ddeilliannau cymhwyster.

67 Mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio sefydliadau arbenigol y trydydd sector neu gwmnïau preifat i gyflwyno darpariaeth. Er enghraifft, mae Mudiad Meithrin yn darparu cymwysterau gofal plant lefel 2 a lefel 3, ac mae sefydliadau preifat eraill yn darparu addysgu ar gyfer cyrsiau chwaraeon. Yn ychwanegol, mae Sefydliad

Gwyddorau Cyfrifiadurol a Mathemategol Cymru yn cynnig mathemateg bellach mewn Safon Uwch mewn ychydig o ysgolion trwy raglen dysgu o bell.

| |
|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yw'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig sy'n gwasanaethu awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Er bod y chweched dosbarth yn gymharol fach, gyda llai na 100 o ddysgwyr i gyd ar draws y ddau grŵp blwyddyn, mae'r ysgol yn gweithio'n greadigol i ehangu ei chynnig o gyrsiau. Mae'n ymgysylltu â nifer o bartneriaid i sicrhau bod eu dysgwyr yn y chweched dosbarth yn gallu dilyn cyrsiau sy'n diwallu eu hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth uniongyrchol ag Ysgol Llanhari yn awdurdod lleol cyfagos Rhondda Cynon Taf i sicrhau cynnig cwricwlwm eang a chynaliadwy. Mae dysgwyr yn teithio rhwng y ddwy ysgol i gymryd rhan mewn nifer o wersi fel rhan o grwpiau addysgu cyfunol. Yn ychwanegol, gall dysgwyr chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd astudio cyrsiau gofal plant a gyflwynir gan Fudiad Meithrin, neu fathemateg bellach Safon Uwch trwy ddysgu o bell gan Raglen Gymorth Mathemateg Bellach yng Nghymru. Hefyd, gallant ddilyn cyrsiau Safon Uwch arbenigol fel troseddeg, y gyfraith a dawns, trwy gyfrwng y Saesneg, trwy ddosbarthiadau gyda'r hwyr yng Ngholeg Pen-y-bont. |

## Dysgu proffesiynol

68 Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru yn sicrhau bod aelodau staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i ddatblygu ochr yn ochr â'u cymheiriaid sy'n cyflawni rolau tebyg mewn gwahanol ysgolion neu golegau. Er enghraifft, mae rhwydweithiau pwnc a sefydlwyd gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol yn rhoi cyfle i athrawon o ystod o ysgolion weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau pwnc arbenigol. Mae hyn yn eu helpu i ffurfio rhwydweithiau cydlynus, cefnogi ei gilydd a rhannu'r gwaith o ddatblygu adnoddau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae agweddau ôl-16 wedi cael eu cynnwys yn gynyddol yng ngwaith rhwydweithiau o'r fath. Yn ychwanegol, mae'r 4 consortiwm rhanbarthol yng Nghymru yn cynnal rhaglen dysgu proffesiynol ddynodedig ar gyfer arweinwyr chweched dosbarth. Mae'r rhaglen hon wedi cael ei safoni ac yn rhychwantu ffiniau consortia rhanbarthol. Mae arweinwyr canol darpariaeth berthnasol mewn colegau fel Coleg Penfro a Grŵp Llandrillo Menai wedi bod yn rhan o'r rhaglen hefyd. Mae digwyddiadau hyfforddi a chyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r arweinwyr canol hyn drafod, cymharu a chydweithio yn eu gwaith ar draws ffiniau gweinyddol a sector.

69 Mae aelodau staff mewn colegau yn gweithio gyda chymheiriaid mewn rolau tebyg mewn colegau eraill fel rhan o grwpiau wedi'u hwyluso gan ColegauCymru. Er enghraifft, mae'r fforwm penaethiaid a'r grŵp cwricwlwm ac ansawdd yn cynnwys cynrychiolwyr o golegau ledled Cymru. Fodd bynnag, terfynwyd y cyd-weithgorau oedd yn cynnwys arweinwyr canol oedd yn gyfrifol am feysydd cwricwlwm neu alwedigaethol tebyg ar draws y gwahanol golegau yn 2016-2017. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn cyfleoedd cydweithio rhwng arweinwyr canol o'r fath mewn gwahanol golegau. Mewn ychydig o achosion, mae colegau'n gweithio gyda'i gilydd ar weithgareddau datblygiad proffesiynol fel rhan o brosiectau penodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r 5 coleg yn ne

ddwyrain Cymru wedi dechrau cynnal arsylwadau gwersi a gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar y cyd fel rhan o brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

70 Ni chaiff cyfleoedd i ysgolion a cholegau weithio gyda'i gilydd yn lleol eu nodi a'u defnyddio'n gyson ledled Cymru. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, colegau ac ysgolion yn cyfathrebu nac yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i gefnogi hyn. Mewn ychydig o rwydweithiau pwnc, mae athrawon o golegau yn ymuno ac yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau datblygu ochr yn ochr â'u cymheiriaid o ysgolion. Fodd bynnag, nid yw ymglymiad athrawon colegau mewn rhwydweithiau o'r fath wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar draws y rhanbarthau. Gall hyn fod o ganlyniad i naill ai diffyg gwahoddiad gan y consortiwm rhanbarthol neu'r awdurdod lleol lletyol, neu ddiffyg ymgysylltiad cadarnhaol gan goleg yn dilyn gwahoddiad o'r fath.

Mae prosiect ymholi proffesiynol ôl-16 ERW wedi cynnwys aelodau staff addysgu o chweched dosbarthiadau ysgolion a Choleg Penfro yn cydweithio ar brosiectau wedi'u hanelu at ddatblygu agweddau penodol ar arfer. Yn ychwanegol, fel rhan o fenter ar wahân i helpu adrannau pwnc i ddatblygu, trefnodd consortiwm rhanbarthol ERW i athrawon pwnc weithio mewn parau ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, bu athro Saesneg arbenigol o Goleg Penfro yn cefnogi cymheiriad o ysgol yn Abertawe. Fe wnaeth y ddau gyfranogwr elwa ar ddysgu am waith ei gilydd, gan rannu eu profiadau a datblygu eu harfer.

71 Mae ychydig o ddarparwyr yn gwahodd ysgolion a cholegau cyfagos yn rheolaidd i fynychu eu digwyddiadau hyfforddi. Mae Grŵp Llandrillo Menai a Choleg y Cymoedd yn gwahodd staff o ysgolion a cholegau eraill i fynychu dosbarthiadau meistr ochr yn ochr â'u hathrawon. Mae ychydig o ddarparwyr hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'i gilydd ar ddatblygiad proffesiynol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu. Er enghraifft, mae staff Ysgol Morgan Llwyd ac Ysgol y Creuddyn yn gweithio gyda'i gilydd fel rhan o raglen datblygu athrawon.

72 Nod Rhwydwaith Seren o hybiau rhanbarthol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yw cefnogi'r myfyrwyr mwyaf deallus i gyflawni eu potensial academaidd a symud ymlaen i brifysgolion blaenllaw. Mae gweithgareddau Seren yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr mwy abl a thalentog ryngweithio â'u cyfoedion o wahanol ysgolion a cholegau. Caiff rolau arweiniol cydlynu hybiau rhanbarthol niferus Seren ledled Cymru eu dal gan unigolion o ystod o wahanol sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, colegau, ysgolion a phrifysgolion. At ei gilydd, mae gweithgareddau Seren wedi hen ennill eu plwyf, ac fe gânt eu gwerthfawrogi gan arweinwyr ysgolion a cholegau, yn ogystal â'r dysgwyr sy'n cymryd rhan. Yn gyffredinol, ychydig iawn o gydweithio rhwng darparwyr sy'n ofynnol ar rwydweithiau Seren. Yn aml, cyflwynir gweithgareddau gan arbenigwyr pwnc unigol o brifysgolion neu faes diwydiant mewn sesiynau dynodedig a gynhelir ar ôl oriau ysgol neu goleg. Mewn ychydig o achosion, o ganlyniad i'r perthnasoedd sy'n cael eu meithrin trwy rwydweithiau Seren, mae athrawon o wahanol ddarparwyr yn cefnogi ei gilydd ag agweddau ar eu gwaith. Er enghraifft, mae athrawon yn datblygu gallu ei gilydd i baratoi dysgwyr Safon Uwch ar gyfer arholiadau mynediad a chyfweliadau mewn prifysgolion hynod ddetholus.

# Cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i addysg ôl-16

## Cyngor ac arweiniad i ddysgwyr

73 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod addas o weithgareddau ar gyfer dysgwyr i'w helpu i ddysgu am opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt wedi iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau a gwersi o dan y thema dilyniant, yn ogystal â nosweithiau opsiynau ar gyfer dysgwyr a rhieni. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn gwahodd pob dysgwr ym Mlwyddyn 11 i gyfarfod dilyniant unigol buddiol.

74 Mewn mwyafrif o achosion, mae ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr Blwyddyn 11 yn wybodus am unrhyw gyrsiau chweched dosbarth sydd ar gael yn yr ysgol trwy drefniadau darpariaeth ar y cyd. Mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff pynciau a gyflwynir gan ysgolion neu golegau partner eu cynrychioli'n ddigon da yn ystod digwyddiadau gyrfaoedd / opsiynau, ac nid yw dysgwyr yn cyfarfod nac yn rhyngweithio ag athrawon darpariaeth ar y cyd cyn i wersi ddechrau. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr sy'n gwneud cais am gyrsiau a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd penodol i drafod disgwyliadau, amserlenni a logisteg. Mewn ychydig iawn o achosion, caiff dysgwyr gyngor ac arweiniad am ddarpariaeth ar y cyd o ddigwyddiadau agored partneriaethau dynodedig.

75 Mae gan bob coleg a llawer o ysgolion ofynion mynediad priodol sy'n cael eu cyfleu yn glir ar gyfer y chweched dosbarth ac/neu ar gyfer pob cwrs ôl-16 y maent yn ei gynnig. Ar y cyfan, mae darparwyr yn cyfaddawdu ar y rhain yn briodol ac yn sensitif mewn amgylchiadau esgusodol. Er enghraifft, gallent ddangos hyblygrwydd os yw canlyniadau TGAU dysgwr wedi cael eu heffeithio gan anawsterau personol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae darparwyr yn cofrestru dysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau galwedigaethol lefel 3, pan nad ydynt wedi dangos digon o fedr a gallu yn eu hastudiaethau ym Mlwyddyn 11. Yn aml, mae natur heriol cyrsiau o'r fath yn achosi i ddysgwyr dynnu'n ôl o gyrsiau neu fethu ynddynt. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr canol o'r farn nad yw'r dysgwyr hyn yn ddigon annibynnol eto i adael ar ddiwedd Blwyddyn 11 i ymgymryd â chyrsiau mwy addas mewn darparwyr eraill. Mae hyn yn adlewyrchu diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr eraill i gefnogi a datblygu'r dysgwyr hyn.

76 Mae lleiafrif o awdurdodau lleol wedi cyflwyno systemau ymgeisio cyffredin defnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau ôl-16. Mae pob dysgwr yn elwa ar y ffaith fod rhaid llenwi un ffurflen gais yn unig, sy'n hygyrch i ysgolion a cholegau a ddewiswyd gan y dysgwr. Mae gan ychydig iawn o bartneriaethau ofynion ymgeisio ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth ar y cyd. Er enghraifft, gofynnir i ddysgwyr ysgrifennu llythyr cais a darparu crynodeb o'u cyflawniadau i'w rhannu gyda darparwyr partner.

77 Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn elwa ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau i'w helpu i ddysgu am eu hopsiynau ôl-16 ym mhob darparwr lleol, a phenderfynu rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod â chynrychiolwyr o ddarparwyr ôl-16 eraill heblaw eu hysgol eu hunain, yn cynnwys darparwyr dysgu

yn y gwaith, yn ogystal ag ysgolion a cholegau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cyngor a roddir i ddysgwyr yn addysgiadol, yn ddiduedd ac yn ennyn diddordeb. Mewn mwyafrif o ysgolion, rhoddir cyfleoedd buddiol i ddysgwyr siarad â chyn-ddysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi symud ymlaen i wahanol gyrchfannau yn ddiweddar, a dysgu am eu profiadau.

Mae rhaglen fugeiliol cwricwlwm integredig Ysgol Gyfun Trefynwy yn rhychwantu ystod oedran yr ysgol o Flwyddyn 7 hyd at, ac yn cynnwys, y chweched dosbarth. Ymgorfforir cyngor ac arweiniad i ddysgwyr trwy gydol pob cyfnod allweddol. Fel rhan o'r cwricwlwm integredig, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o addysg yn gysylltiedig â gwaith, gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol i hwyluso hyn. Maent yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerth chweil, yn dysgu am opsiynau prentisiaeth yn y sector ôl-16, ac yn mynychu ffair yrfaoedd gynhwysfawr. Yn ychwanegol, mae dysgwyr yn elwa ar ymweliadau allanol â darparwyr ôl-16 eraill, yn cynnwys colegau cyfagos.

78 Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a gânt am opsiynau dilyniant. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw'r cyngor a gânt gan eu hathrawon yn mynd i'r afael â'r llwybrau yn lle astudio Safon Uwch yn ddigonol. Dywedant fod cyngor aelodau staff yn aml yn canolbwyntio ar annog dysgwyr i symud ymlaen i chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae llawer o ddysgwyr yn credu nad ydynt yn gwybod digon am ansawdd yr opsiynau sydd ar gael iddynt, a'r deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr a gwblhaodd y cyrsiau hynny yn ddiweddar.

79 Mae llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws chweched dosbarthiadau ysgolion a cholegau yn rhoi blaenoriaeth uchel i gofrestru cynifer o ddysgwyr ag y bo modd. Mae uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarthiadau bach yn teimlo dan gryn bwysau i sicrhau cofrestriadau. Mewn lleiafrif o achosion, gall hyn arwain at gyfyngiadau wrth hyrwyddo opsiynau eraill ymhlith dysgwyr Blwyddyn 11. Mewn gormod o achosion, nid yw'r cyngor a'r arweiniad a roddir i ddysgwyr gan ysgolion a cholegau yn ystyried yn ddigonol p'un a yw darparwyr eraill yn yr ardal mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion unrhyw ddysgwr penodol.

80 Mae arweinwyr colegau o'r farn fod perthnasoedd gweithio gyda mwyafrif yr ysgolion yn gryf ac effeithiol, yn enwedig lle nad oes chweched dosbarth mewn ysgolion. Fodd bynnag, dywed arweinwyr colegau y bydd lleiafrif o ysgolion dim ond yn gwahodd cynrychiolwyr colegau i siarad â dysgwyr am ddarpariaeth coleg nad yw'n cystadlu'n uniongyrchol â chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae rhai ysgolion yn caniatáu i gynrychiolwyr colegau annerch carfannau blwyddyn gyfan, tra bod ysgolion eraill yn caniatáu i golegau siarad â grŵp dethol o ddysgwyr yn unig. Nid yw ychydig o ysgolion yn gwahodd darparwyr y maent yn dirnad eu bod yn cystadlu â nhw i siarad â dysgwyr mewn unrhyw ffordd. Mae arweinwyr colegau o'r farn nad yw'r cyngor a'r arweiniad y mae lleiafrif o ysgolion yn ei roi i ddysgwyr yn wrthrychol, a'i fod yn llywio dysgwyr tuag at eu chweched dosbarthiadau eu hunain. Mae uwch arweinwyr ychydig o ysgolion o'r farn fod colegau cyfagos yn rhy ymwthgar yn eu hymdrechion marchnata a'u hymdrechion ehangach i ddenu dysgwyr.

81 Mae Gyrfa Cymru yn cyflawni rôl werthfawr i godi ymwybyddiaeth am lwybrau ôl-16 eraill i astudio cyrsiau Safon Uwch. Pan roddir yr amser a'r cyfle iddynt, maent yn

esbonio strwythur a fformat cyrsiau galwedigaethol a rhaglenni dysgu yn y gwaith amser llawn i ddysgwyr.  Hefyd, maent yn rhannu manylion defnyddiol am ffeiriau gyrfaoedd lleol, digwyddiadau agored a chyfleoedd prentisiaeth.  Mae cynrychiolwyr Gyrfa Cymru yn rhyngweithio â dysgwyr trwy neges destun neu neges e-bost, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymweld ag ysgolion ar gyfer cyfarfodydd a sesiynau un i un gyda grwpiau penodol o ddysgwyr bob wythnos hefyd.  Mewn ychydig o ysgolion, mae cynrychiolwyr Gyrfa Cymru yn ei chael yn anodd sicrhau cyfle digonol i fod yng nghwmni dysgwyr, neu dreulio amser digonol gyda nhw.

82 Yn gyffredinol, dywed darparwyr a dysgwyr ôl-16 eu hunain fod ysgolion uwchradd heb chweched dosbarth yn cynnig ystod eang o gyngor ac arweiniad diduedd i ddysgwyr.  Mae dysgwyr yn elwa ar ryngweithio â bron pob un o'r darparwyr cyfagos, ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o sesiynau rhagflas a digwyddiadau pontio o Flwyddyn 9 ymlaen.

83 Pan fydd gan ysgolion eu chweched dosbarth eu hunain, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau Blwyddyn 11 yn dewis symud ymlaen i'r chweched dosbarth yn eu hysgol eu hunain neu gofrestru yn y coleg agosaf.  Mae ychydig ohonynt yn dewis cofrestru yn y chweched dosbarth mewn ysgol wahanol.  At ei gilydd, mae dysgwyr yn seilio eu penderfyniad i ymuno â darparwr ôl-16 ar 4 prif ffactor, sef: y cyrsiau sydd ar gael, hwylustod teithio, eu perthnasoedd â'u hathrawon presennol, a dewisiadau eu ffrindiau.  Mae lleiafrif ohonynt yn ystyried amgyffrediadau ehangach rhieni neu'r gymuned o berfformiad cyn-ddysgwyr, ac ansawdd yr addysgu mewn gwahanol ddarparwyr.

84 Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio gwerthusiadau gwrthrychol o berfformiad gwahanol ddarparwyr, fel adroddiadau arolygu, i lywio eu dewisiadau.  Dywed ychydig o ddysgwyr eu bod yn ystyried data perfformiad ôl-16 y mae'r darparwyr yn ei rannu â nhw.  Fodd bynnag, dim ond y darparwyr eu hunain a all roi mynediad i ddarpar ddysgwyr a'u rhieni at wybodaeth am berfformiad ar lefel cwrs.  O ganlyniad, gall darparwyr ddewis pa fesurau i'w rhannu, os o gwbl.

85 Fel aelodau'r cyhoedd, gall rhieni a darpar ddysgwyr gael gwybodaeth am ddeilliannau cyffredinol dysgwyr mewn chweched dosbarthiadau ysgolion unigol trwy wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru.  Mae'r wefan yn cyflwyno canran y dysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 3 o ddau gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar raddau A*-E.  Gan fod y trothwy i gyflawni 2 radd E mewn Safon Uwch yn isel, mae'r rhan fwyaf o chweched dosbarthiadau ysgolion yn cyflawni 95% neu'n well ar gyfer y mesur hwn.  O ganlyniad, mae'r wybodaeth hon yn gyfyngedig o ran ei defnyddioldeb i ddarpar ddysgwyr a'u rhieni.  Yr ail fesur yw'r sgôr pwyntiau cyfartalog, sy'n dibynnu ar nifer y cymwysterau a'r graddau a gyflawnir gan ddysgwyr.  Mae'n rhoi syniad bras o gryfder perfformiad chweched dosbarthiadau ysgolion unigol.  Nid yw'r naill na'r llall o'r mesurau hyn yn ystyried cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr na chyfran y dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'w hastudiaethau cyn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau.

86 Roedd y mesurau sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd mesur cryfder y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a cholegau.  Er mwyn mynd i'r afael â hyn, yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres gynhwysfawr o fesurau perfformiad ôl-16 sy'n

gyson ar draws chweched dosbarthiadau a cholegau, fel ei gilydd.[14] Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth fanwl ar draws ystod eang o fesurau deilliannau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw elfennau o'r mesurau newydd cyson hyn ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd, ac ychydig iawn o ddarparwyr ledled Cymru sy'n eu rhannu â darpar ddysgwyr neu'u rhieni.

87 Mae llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn credu y gall gwybodaeth am berfformiad fod yn ddefnyddiol ar gyfer darpar ddysgwyr ôl-16, o'i chyflwyno yn briodol. Mae llawer o ddarparwyr yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda dysgwyr a rhieni am ddeilliannau cymhwyster cyffredinol carfannau diweddar. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn rhannu canlyniadau defnyddiol ar lefel cwrs yn ystod digwyddiadau opsiynau, neu drwy eu prosbectysau neu ddeunyddiau gwybodaeth am gyrsiau. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddarparwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol am berfformiad i ddysgwyr am y cyrsiau maent yn eu cynnig, gan gynnwys trwy ddarpariaeth ar y cyd. Mewn gormod o achosion, mae darparwyr yn rhy ddetholus ac yn rhannu gwybodaeth nad yw'n adlewyrchu gwendidau'r darparwr yn llawn, yn ogystal â'i gryfderau. Ychydig iawn o ysgolion neu golegau sy'n rhannu eu gwybodaeth am berfformiad yn y sector ôl-16 gan Lywodraeth Cymru gyda darpar ddysgwyr neu'r cyhoedd ehangach.

### Rhannu gwybodaeth am ddysgwyr

88 Mae protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddysgwyr pan fydd dysgwyr ym Mlwyddyn 11 neu'n is yn trosglwyddo rhwng ysgolion wedi hen ennill eu plwyf. Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 (Prydain Fawr, 2004) yn amlinellu'r gofynion ar gyfer ffeiliau trosglwyddo cyffredin i'w defnyddio i rannu gwybodaeth benodol am ddysgwyr pan fyddant yn trosglwyddo rhwng ysgolion. Caiff natur a fformat y wybodaeth angenrheidiol eu diffinio'n fuddiol a'u deall yn helaeth gan ysgolion. Mae'r rheoliadau hefyd yn amlinellu'r gofynion i drefnu bod adroddiad ar ymadawyr ysgol ar gael i unrhyw ddysgwyr uwchlaw'r oedran ysgol gorfodol, fel y rhai yn y chweched dosbarth, sy'n bwriadu gadael yr ysgol.

89 Yn y sector ôl-16, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau bod ysgolion a cholegau sy'n cofrestru dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn deall anghenion y dysgwyr hyn o ran gallu, cymorth a gofal. Mae llawer ohonynt yn cydweithio i ddatblygu systemau safonedig ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am y dysgwyr hyn, gan gynnwys cynlluniau datblygu unigol, i ymateb i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mewn ychydig o achosion, mae colegau sydd angen cysylltu â nifer uchel iawn o wahanol ddarparwyr i gael gwybodaeth am y dysgwyr hyn yn gweld y broses hon yn heriol yn logistaidd. Mae hyn yn rhwystro ansawdd cyfathrebu a chynllunio pontio rhwng y coleg a'r ysgolion.

90 Mewn lleiafrif o achosion, mae partneriaethau ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn y sector ôl-16 wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth am

[14] O ganlyniad i'r tarfu a achoswyd i addysgu ac asesu gan bandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi na fyddant yn defnyddio deilliannau cymhwyster 2019-2020 i gyhoeddi mesurau perfformiad, nac yn eu defnyddio fel rhan o drefniadau atebolrwydd arferol ar gyfer ysgolion a cholegau. Hefyd, maent wedi amlinellu'r effeithiau disgwyliedig ar gyhoeddi data ar berfformiad ar gyfer blynyddoedd dilynol (Llywodraeth Cymru, 2020d).

ddysgwyr rhwng darparwyr perthnasol. Mae gan ychydig o bartneriaethau systemau electronig canolog a chytundebau ysgrifenedig effeithiol yn nodi'r wybodaeth y byddant yn ei rhannu, gyda chyfeiriad penodol at ddysgwyr ôl-16. Mae'r rhain yn amlinellu'n glir raddau'r wybodaeth am ddysgwyr i'w rhannu rhwng llofnodwyr.

Mae awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn wedi sefydlu systemau effeithiol i helpu ysgolion i rannu gwybodaeth am ddysgwyr gyda'r coleg lleol, sef Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r coleg yn rhoi rhestrau o enwau ymgeiswyr ar ei safle diogel i bob ysgol allu mynd atynt yn breifat. Wedyn, mae pob ysgol yn defnyddio swyddogaeth eu systemau rheoli gwybodaeth, a ddatblygwyd gan yr awdurdodau lleol, i gasglu gwybodaeth berthnasol at ei gilydd yn gyfleus am eu disgyblion sydd wedi gwneud cais i'r coleg. Mae'r wybodaeth yn cynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, anghenion meddygol a gwybodaeth am ymddygiad a phresenoldeb. Gall staff ysgol atodi sylwadau wrth gofnod pob dysgwr, cyn lanlwytho'r wybodaeth hon ar safle'r coleg ar ddechrau mis Mehefin bob blwyddyn.

91 Nid yw mwyafrif y darparwyr yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr yn effeithiol i gefnogi cyfnod pontio neu drosglwyddo i'r sector ôl-16. Mewn gormod o achosion, nid yw darparwyr yn cyfathrebu'n ddigon da i gefnogi dilyniant y dysgwyr hŷn, yn cynnwys y rhai sy'n cwblhau Blwyddyn 11. Prin yw'r darparwyr sy'n ymwybodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch *'Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol'* (Llywodraeth Cymru, 2019) neu'r gofynion cysylltiedig. Mewn lleiafrif o achosion, mae hyn yn golygu bod darparwyr yn dechrau addysgu dysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion neu golegau eraill heb wybod rhyw lawer amdanynt.

92 Mae lleiafrif o arweinwyr yn wyliadwrus ynghylch rhannu gwybodaeth am ddysgwyr, gan eu bod yn pryderu y bydd hyn, o bosibl, yn torri'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ymhlith staff, ceir diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn y gellir ei rannu a pha gydsyniad mae angen ei gael. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn gofyn i rieni lofnodi cydsyniad i rannu gwybodaeth am eu plentyn gyda phartneriaid perthnasol pan fydd eu plentyn yn cofrestru yn yr ysgol, fel arfer ym Mlwyddyn 7. Yn yr un modd, mae colegau'n gofyn i ddysgwyr lofnodi cydsyniad i rannu gwybodaeth adeg cofrestru.

93 Mae mwyafrif o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ansicr ynghylch sut mae unrhyw brotocolau rhannu data ar lefel awdurdod lleol yn berthnasol i ddysgwyr chweched dosbarth, neu'r rhai sydd wedi cwblhau Blwyddyn 11 yn ddiweddar, yn enwedig os yw'r dysgwyr hynny'n symud i ddarparwyr y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol. Mewn llawer o achosion, mae ysgol neu goleg sy'n cofrestru unrhyw ddysgwr ôl-16 ar ganol blwyddyn, a oedd wedi bod mewn ysgol neu goleg gwahanol cyn hynny, yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y dysgwr am eu gwybodaeth. Mewn lleiafrif o achosion, bydd darparwyr yn cysylltu ag ysgol neu goleg blaenorol y dysgwr i ofyn am wybodaeth.

94 Pan nad oes chweched dosbarth mewn ysgol, mae rhannu gwybodaeth i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr i goleg neu chweched dosbarth gwahanol yn gweithio'n dda. I'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, mae gweithgareddau pontio yn cynnwys sawl cyfle i ryngweithio rhwng cynrychiolwyr y darparwyr ôl-16, y dysgwyr eu hunain, a staff yr ysgol sy'n adnabod y dysgwyr yn dda. Mae hyn yn helpu sicrhau bod chweched

dosbarth yr ysgol neu'r coleg yn gallu cael gwybodaeth fuddiol a chreu darlun defnyddiol o anghenion pob dysgwr.  Mewn ychydig o achosion, gall diffyg trefniadau systematig clir arwain at gyfathrebu aneffeithiol, yn enwedig os yw dysgwyr yn symud ymlaen i ddarparwyr nad ydynt wedi eu cysylltu'n agos â'r ysgol, er enghraifft mewn ardal wahanol o Gymru.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau ag 17 ysgol uwchradd a 5 coleg addysg bellach
- cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol
- cyfweliadau â chynrychiolwyr Gyrfa Cymru
- adolygiad o lenyddiaeth berthnasol, yn cynnwys polisïau a diweddariadau Llywodraeth Cymru, papurau ymchwil, gwerthusiadau o raglenni'r llywodraeth
- arolwg a gynhaliwyd gan Estyn trwy gonsortia rhanbarthol ym mis Hydref 2020 i gategoreiddio trefniadau gwaith partneriaeth chweched dosbarth ledled Cymru
- dadansoddi data o'r ffynonellau canlynol:
    - Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer chweched dosbarthiadau
    - Data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru
    - Cronfa Ddata Arholiadau Cymru
    - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Llywodraeth Cymru
    - Casgliad data ôl-16 Llywodraeth Cymru
    - Storfa ystadegol StatsCymru Llywodraeth Cymru

Dewiswyd ysgolion a cholegau ar ôl dadansoddi data, ystyried canfyddiadau arolygu ac adborth gan AEM. Mae'r sampl mor amrywiol ag y bo modd, yn seiliedig ar nifer gymesur o ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, lleoliad daearyddol a ffactorau economaidd gymdeithasol.

Roedd yr ymweliadau'n cynnwys:

- cyfweliadau ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol
- cyfarfodydd gyda dysgwyr i drafod eu profiadau a chasglu eu barn ar ansawdd y ddarpariaeth, a'r cyngor a'r arweiniad a gânt
- craffu ar ddogfennau a gwefannau ysgolion neu golegau
- cyfarfodydd a chyfweliadau o bell ar gyfer 4 o'r 5 coleg

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion a'r colegau canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

- Coleg Gwent
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Penfro
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp Llandrillo Menai
- Ysgol Calon Cymru, Powys
- Ysgol Cas-gwent, Sir Fynwy
- Ysgol Emrys Ap Iwan, Conwy
- Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe

- Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gyfun Trefynwy, Sir Fynwy
- Ysgol Maes y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam
- Ysgol Pentrehafod, Abertawe
- Ysgol Stanwell, Bro Morgannwg
- Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili
- Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Powys
- Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo, Caerdydd

# Atodiad 2: Modelau partneriaethau darpariaeth ar y cyd

Canolbwyntiodd adolygiad thematig Estyn 2006 yn benodol ar bartneriaethau rhwng ysgolion a cholegau, a diffiniodd y rhain yn nhermau 4 categori (Estyn, 2006). Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn cynnwys partneriaethau ôl-16 rhwng ysgolion ac ysgolion eraill, a gyda cholegau yn ogystal, ac yn eu dosbarthu yn ôl y 5 categori diwygiedig canlynol:

| | A) Annibyniaeth | B) Cydweithio | C) Cydweithredu | D) Consortiwm | E) Cydffederasiwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | • Mae darparwyr yn cynllunio ac yn gweithredu'u darpariaeth chweched dosbarth/ôl-16 ar wahân i'w gilydd. | • Wrth gynllunio darpariaeth, mae darparwyr chweched dosbarth/ôl-16 cyfagos yn nodi lle gallant wella amrywiaeth a hyfywedd darpariaeth, trwy ddarparu ar gyfer dysgwyr ei gilydd mewn ychydig o bynciau. O bosib fo'r broses hon yn cael ei chydlynu gan yr awdurdod lleol, neu yn adrodd yn ôl i'r awdurdod lleol. | • Mae'r darparwr yn gweithio gydag un neu fwy o ddarparwyr chweched dosbarth/ôl-16 sy'n cydweithredu i gynllunio darpariaeth resymoledig er mwyn gwella dewis a hyfywedd cyrsiau sydd ar gael, ac osgoi dyblygu darpariaeth yn aneffeithlon. O bosib fo'r broses hon yn cael ei chydlynu gan yr awdurdod lleol, neu yn adrodd yn ôl i'r awdurdod lleol.. | • Mae grŵp arwain consortiwm yn cyd-gynllunio'r ddarpariaeth chweched dosbarth/ôl-16 ar draws yr holl ddarparwyr. Gallai'r awdurdod lleol chwarae rhan ganolog yn cydlynu gwaith y grŵp.<br>• Mae'r galw ymhlith dysgwyr, gwybodaeth am y farchnad lafur, gwerth am arian ac ansawdd darpariaeth bob un yn dylanwadu ar y broses gynllunio. | • Mae cynllunio'r ddarpariaeth chweched dosbarth/ôl-16 yn ganolog a holistaidd. |
| **Darpariaeth** | • Os ydynt wedi eu lleoli yn gymharol agos at ei gilydd, mae darparwyr yn aml yn cystadlu i ddenu dysgwyr ôl-16. | • Mae trefniadau cyfatebol yn golygu bod ychydig o ddysgwyr yn ymgymryd â nifer fach o bynciau chweched dosbarth/ôl-16 sy'n cael eu cyflwyno gan ddarparwr arall.<br>• Gallai darparwyr fod wedi cysoni amserlenni yn rhannol i hwyluso darpariaeth partneriaeth ôl-16 gyfatebol. | • Mae dysgwyr chweched dosbarth/ôl-16 y darparwr yn ymgymryd ag ystod o gyrsiau a gyflwynir gan ddarparwyr eraill fel rhan o amserlen yr ysgol.<br>• Mae darparwyr wedi cysoni amserlenni i hwyluso darpariaeth partneriaeth ôl-16 gyfatebol. | • Gall dysgwyr ym mhob darparwr gael mynediad i gyfres gynhwysfawr o ddarpariaeth ddynodedig ar draws y consortiwm.<br>• Mae logisteg wedi'i safoni ar draws y consortiwm, gan gynnwys amserlennu a threfniadau cludiant. | • Ac eithrio ychydig iawn o gyrsiau, mae'r holl ddysgwyr yn cael yr un mynediad i ddarpariaeth ar draws y cydffederasiwn.<br>• Gall darpariaeth fod wedi'i chanoli, neu efallai nad yw wedi'i chanoli, i un safle.<br>• Gall darparwr yn y cydffederasiwn gael ei gynnwys yn uniongyrchol neu efallai na chaiff ei gynnwys yn uniongyrchol i gyflwyno darpariaeth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | • Caiff disgyblion CA4 eu hannog yn gryf i fynd ymlaen i'r chweched dosbarth yn eu hysgol bresennol (yn amodol ar ofynion mynediad).<br>• Mae'r darparwr yn helpu dysgwyr nad ydynt yn bodloni gofynion mynediad darpariaeth y chweched dosbarth/ôl-16, neu lle nad yw cyrsiau addas ar gael, i symud ymlaen at ddarparwr gwahanol ar gyfer eu haddysg chweched dosbarth/ôl-16. | • Darperir gwybodaeth a chyngor i ddisgyblion CA4 am ystod yr opsiynau sydd ar gael iddynt drwy ddarparwyr cydweithredol eraill.<br>• Gall disgyblion siarad ag athrawon perthnasol o ddarparwyr cydweithredol cyn gwneud eu dewisiadau chweched dosbarth/ ôl-16. | • Darperir gwybodaeth a chyngor i ddisgyblion CA4 am ystod yr opsiynau sydd ar gael iddynt drwy ddarparwyr cydweithredol eraill.<br>• Mae darparwyr yn trefnu i ddysgwyr CA4 siarad â chynrychiolwyr o ddarparwyr cydweithredol eraill, er enghraifft yn ystod digwyddiadau agored/opsiynau. | • Mae dysgwyr CA4 yn derbyn gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r ystod o opsiynau sydd ar gael drwy'r consortiwm.<br>• Mae darparwyr yn trefnu i ddysgwyr CA4 siarad â chynrychiolwyr o ddarparwyr eraill y consortiwm, er enghraifft yn ystod digwyddiadau agored/ opsiynau. Gallai fod digwyddiad agored pwrpasol i hyrwyddo darpariaeth y consortiwm. | • Mae dysgwyr CA4 yn derbyn gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r ystod o opsiynau sydd ar gael drwy'r cydffederasiwn. Mae deunyddiau a digwyddiadau arweiniad wedi'u safoni. |
| **Trefniadau contractiol arrangements** | • Nid yw'r darparwr yn gyffredinol yn dibynnu ar ddarparwyr eraill am unrhyw ran o'u darpariaeth chweched dosbarth/ôl-16. Gall fod wedi contractio darparwyr allanol neu fasnachol i addysgu cyrsiau penodol, er enghraifft Safon Uwch Mathemateg Bellach, neu gyrsiau gofal plant penodol. | • Mae darparwyr cydweithredol yn deall y rhan y maent yn ei chwarae, ac eto efallai nad oes ganddynt gytundeb ysgrifenedig ffurfiol yn pennu disgwyliadau a chyfrifoldebau ar draws pob agwedd berthnasol ar eu gwaith. | • Mae cytundeb ysgrifenedig yn pennu cyfrifoldebau gweithredol pob darparwr cydweithredol. | • Ceir trefniadau ffurfiol, er enghraifft contractau, memoranda cyd-ddealltwriaeth a/neu gytundebau lefel gwasanaeth sy'n cyfeirio at ansawdd, cyfrifoldebau adrodd a threfniadau ariannol. | • Mae polisïau a phrosesau yn rhychwantu'r cydffederasiwn. Er enghraifft, mae trefniadau rheoli perfformiad yn gyson ar draws darpariaeth chweched dosbarth/ôl-16 y cydffederasiwn.<br>• Gallai aelodau staff fod wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y cydffederasiwn. |
| **Gwella Ansawdd** | • Nid yw darparwyr chweched dosbarth/ôl-16 yn rhannu canfyddiadau hunanwerthuso na chynlluniau gwella gyda'i gilydd. | • Lle maent yn rhannu darpariaeth, mae darparwyr yn cyfleu data perthnasol am bresenoldeb dysgwyr ac yn rhannu deilliannau asesiadau dysgwyr, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer adroddiadau i rieni.<br>• Mae prosesau gwella ansawdd yn parhau ar wahân i raddau helaeth, gyda fawr ddim rhannu canfyddiadau hunanwerthuso na chynlluniau gwella rhwng darparwyr. | • Mae systemau ar waith gan ddarparwyr ar gyfer rhannu gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad ac olrhain cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Maent hefyd yn rhannu targedau gwella dysgwyr perthnasol.<br>• Mae darparwyr yn rhannu prif ganfyddiadau hunanwerthuso a chynlluniau gwella gyda'i gilydd. | • Mae gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad, olrhain cynnydd dysgwyr a gosod targedau yn hygyrch i'r holl randdeiliaid perthnasol ar draws y consortiwm.<br>• Mae grŵp arwain y consortiwm yn gwerthuso ansawdd darpariaeth y consortiwm a rennir. Mae cynllunio gwelliant yn ystyried darpariaeth chweched dosbarth/ôl-16 y consortiwm yn gyffredinol yn ogystal â chyrsiau unigol. | • Mae gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad, olrhain cynnydd dysgwyr a gosod targedau yn hygyrch i'r holl aelodau staff perthnasol.<br>• Mae systemau a phrosesau gwella ansawdd yn weithredol ar draws y cydffederasiwn, a chânt eu goruchwylio'n ganolog. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Goruchwyliaeth** | • Yn gyffredinol, ychydig o gyfathrebu sydd rhwng darparwyr chweched dosbarth/ôl-16. Nid oes ganddynt unrhyw fewnbwn i ddarpariaeth ei gilydd. | • Mae uwch arweinwyr neu arweinwyr canol o ddarparwyr cydweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion gweithredol. | • Mae uwch arweinwyr neu arweinwyr canol o'r darparwyr gwahanol yn cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â materion gweithredol a monitro prosesau gwella ansawdd. Mae'n bosib fo'r awdurdod lleol yn chwarae rhan mewn cyfarfodydd o'r fath. | • Mae grŵp arwain ffurfiol yn goruchwylio ac yn cyfarwyddo'r ddarpariaeth partneriaeth ddynodedig ar draws yr holl ddarparwyr. Mae'r grŵp yn debygol o gynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdod lleol.<br>• Gallai fod hierarchaeth o grwpiau arwain sy'n mynd i'r afael â materion gweithredol a phrosesau gwella ansawdd. | • Gall y darparwr fod wedi'i frandio yn endid unigol, er enghraifft canolfan neu goleg chweched dosbarth, ond mae darparwyr ar wahân yn cyfrannu at weithredu, rheoli neu lywodraethu.<br>• Ceir grŵp llywodraethu cyffredinol.<br>• Mae'r awdurdod lleol yn rhan o unrhyw grŵp â chyfrifoldeb dros gynllunio strategol a goruchwyliaeth.<br>• Mae cylch gwaith ledled y cydffederasiwn cyfan gan rai uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. |


Ym mis Hydref 2020, gofynnodd Estyn am i'r 4 consortiwm rhanbarthol weithio gydag awdurdodau lleol i ddosbarthu pob chweched dosbarth ysgol yng Nghymru yn ôl y categorïau partneriaeth hyn. Dangosir canlyniadau'r arolwg hwn yn ffigurau 4 a 5.

# Atodiad 3: Gwybodaeth ategol

## Tueddiadau mewn darpariaeth ôl-16


Cynyddodd nifer y dysgwyr 16 mlwydd oed yng Nghymru 25% rhwng 1993 a 2007; o ryw 32,500 ym 1993, nes cyrraedd uchafbwynt o ryw 40,600 yn 2007. Er 2007, mae'r nifer wedi gostwng yn raddol, ac yn 2018, roedd wedi dychwelyd i fwy neu lai'r un lefel ag ydoedd ym 1993. Dilynwyd hyn gan ychydig o gynnydd ar gyfer 2019, sy'n rhan o duedd ragamcanol ar i fyny tan 2027.

**Ffigur 6: Nifer y dysgwyr 16 mlwydd oed yng Nghymru**




(StatsCymru, 2020)

**Ffigur 7: Cyrchfannau dysgwyr 16 mlwydd oed**





(Gyrfa Cymru, 2020)

Yn 2019, aeth 49% o ddysgwyr yn cwblhau Blwyddyn 11 ymlaen i astudio amser llawn mewn coleg AB, aeth 40% o ddysgwyr ymlaen i chweched dosbarth ysgol, aeth 6% ymlaen i ymgymryd â dysgu yn y gwaith, ac mae'n hysbys nad yw 2% o ddysgwyr mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Rhwng 2012 a 2019, roedd ychydig o gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i goleg, sef 14,800. Dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer y dysgwyr sy'n mynychu chweched dosbarthiadau ysgolion o 15,800 i 12,100; sef gstyngiad o 23%.

Yn 2019-2020, roedd 68% o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yng Nghymru yn cynnwys chweched dosbarth. Mae lleiafrif o'r chweched dosbarthiadau yn yr ysgolion hyn yn fach. Yn 2019-2020, roedd gan 31% ohonynt gyfanswm o 100 o ddysgwyr neu lai ar draws y ddau grŵp blwyddyn, ac roedd gan 60% ohonynt 150 o ddysgwyr neu lai (Llywodraeth Cymru, 2020g). Mae carfannau pwnc bach mewn llawer o chweched dosbarthiadau ysgolion. Yn 2018-2019, roedd 70% o garfannau pwnc ail flwyddyn Safon Uwch mewn ysgolion ledled Cymru yn cynnwys 10 o ddysgwyr neu lai, a 41% yn cynnwys 5 dysgwr neu lai. Mae nifer y cofrestriadau cyfatebol ar gyfer cyrsiau lefel UG yn uwch, gyda 73% yn 15 dysgwr neu lai, 55% yn 10 dysgwr neu lai, a 29% yn 5 dysgwr neu lai (Llywodraeth Cymru, 2020e). Mae ysgolion yn blaenoriaethu'r grwpiau pwnc bach iawn hyn i'w cynnwys mewn trefniadau darpariaeth ar y cyd. Mewn ychydig iawn o achosion, mae darparwyr fel arall yn cyfuno eu grwpiau addysgu UG ac ail flwyddyn Safon Uwch eu hunain ar gyfer pynciau lle mae nifer y dysgwyr yn isel. Er enghraifft, gellir cynnal gwersi penodol sy'n cynnwys dysgwyr yn gweithio'n annibynnol, gyda chymorth un i un rheolaidd gan yr athro, yn y modd hwn.

**Ffigur 8: Chweched dosbarthiadau ysgolion yn ôl maint**




(Llywodraeth Cymru, 2020g)

Mae mwyafrif y dysgwyr mewn chweched dosbarthiadau ysgolion yn astudio cyrsiau UG / Safon Uwch ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru. Yn 2018-2019, roedd gan 59% ohonynt raglenni astudio o’r math hwn, ac roedd 9% arall yn astudio cyrsiau UG / Safon Uwch yn unig. Ymgymerodd 5% ohonynt â Bagloriaeth Cymru ochr yn ochr â chymwysterau galwedigaethol lefel 3, ac ymgymerodd 1% arall â chymwysterau galwedigaethol lefel 3 yn unig. Astudiodd 23% gyfuniad o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau Safon Uwch.

Mae colegau’n darparu ar gyfer tua 30% o ddysgwyr Safon Uwch ledled Cymru. Yn 2018-2019, roedd 32% o garfannau pwnc ail flwyddyn Safon Uwch mewn colegau ledled Cymru yn cynnwys 10 dysgwr neu lai, a 5 dysgwr neu lai mewn 16% o garfannau pwnc. Mae nifer y cofrestriadau cyfatebol ar gyrsiau UG yn uwch, gyda 33% yn cynnwys 15 dysgwr neu lai, 21% yn cynnwys 10 dysgwr neu lai, ac 11% yn cynnwys 5 dysgwr neu lai (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae rhai colegau’n rheoli ac yn cynnig darpariaeth Safon Uwch fel endid unigol, yn cynnal gwersi mewn un ganolfan ddynodedig Safon Uwch neu fwy. Mae colegau eraill yn integreiddio eu darpariaeth Safon Uwch ochr yn ochr â darpariaeth alwedigaethol gysylltiedig ar draws meysydd dysgu ar wahân. Mae meysydd dysgu felly hefyd yn darparu ystod eang o ddarpariaeth alwedigaethol ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed, sy’n amrywio o lefel mynediad i lefel 3.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Un o'r 12 sefydliad addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu addysg i ddysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed yn bennaf |
| **Consortia** | Consortia rhanbarthol gwella ysgolion yn gweithio i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac addysg pobl ifanc |
| **Chweched dosbarth** | Y sector sy'n cynnwys Blynyddoedd 12 ac 13 ysgol lle mae dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed yn nodweddiadol yn astudio cymwysterau lefel 3 fel cymwysterau UG neu Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol. |
| **Darpariaeth ar y cyd** | Cyrsiau lle mae darparwyr yn cyfuno grwpiau addysgu o wahanol chweched dosbarthiadau neu golegau |
| **Darpariaeth gyfunol** | Nid oes gan ysgolion uwchradd eu chweched dosbarthiadau unigol eu hunain. Mae dysgwyr o'r ysgolion hyn yn symud ymlaen i chweched dosbarth mewn ysgol neu goleg cyfagos. |
| **Gwerth ychwanegol** | Mesurau a ddefnyddir i fesur graddau'r cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn, ar sail cyrhaeddiad blaenorol. Maent yn meintoli cyrhaeddiad graddau ar gyfer cymwysterau lefel 3, fel cymwysterau Safon Uwch, trwy ystyried cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr ar lefel 2 (TGAU yn bennaf). |
| **Lefel UG** | Cymhwyster Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch Gyfrannol (lefel 3) |
| **NACH** | Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| **Ôl-16** | At ddibenion yr adroddiad hwn, mae ôl-16 yn cyfeirio at y sector addysg sy'n cynnwys dysgwyr rhwng 16 ac 19 mlwydd oed. Mae'n cwmpasu dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgol a choleg, ond nid yw'n cynnwys dysgwyr mewn addysg uwch, er enghraifft y rhai mewn prifysgol. |
| **Safon Uwch** | Cymhwyster Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch (lefel 3) |
| **TGAU** | Cymhwyster Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (lefel 2) |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Boswell, K. (2000) *Building Bridges or Barriers? Public Policies that Facilitate or Impede Linkages Between Community Colleges and Local School Districts.* [Ar-lein]. In: J. C. Palmer (ed.). *How Community Colleges can Create Productive Collaborations with Local Schools.* New Directions for Community Colleges 111, 3-16. Ar gael o: https://archive.org/details/ERIC_ED448815/page/n1 [Darllenwyd 28 Hydref 2020]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004, 2006) *Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/1/contents [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Essex, N. L. (2001) *Effective school-college partnerships, a key to educational renewal and instructional improvement.* [Ar-lein]. Education **121** (4), 732-736. Ar gael o: https://www.semanticscholar.org/paper/Effective-School-College-Partnerships%2C-a-Key-to-and-Essex/47435b0a55174d0d0bf84ede57175f65a1b95fa4

Estyn (2006) *Cydweithio rhwng ysgolion sydd â chweched dosbarth a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn cyflawni gwerth am arian.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Addysg%2520wyddoniaeth%2520ar%2520gyfer%2520dysgwyr%252014-19%2520oed%2520-%2520Mai%25202008.pdf [Darllenwyd 17 Tachwedd 2019]

Estyn (2016) *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Local%2520authority%2520Welsh%2520in%2520Education%2520Strategic%2520Plans%2520CY%2520-%2520final.pdf [Darllenwyd 7 Tachwedd 2019]

Estyn (2018) *Cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/A%2520levels%2520in%2520sixth%2520forms%2520and%2520further%2520education%2520colleges%2520cy.pdf [Darllenwyd 17 Tachwedd 2019]

Estyn (2020a) *Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf.* Caerdydd*:* Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Safon%2520Uwch%2520Cymraeg%2520Iaith%2520Gyntaf.pdf [Darllenwyd 18 Medi 2020]

Estyn (2020b) *Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch.* Caerdydd*:* Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Pynciau_busnes_ac_astudiaethau_cymdeithasol_Safon_Uwch.pdf [Darllenwyd 18 Medi 2020]

Gyrfa Cymru (2020) *Hynt disgyblion*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gyrfacymru.llyw.cymru/gweithwyr-gyrfaoedd-proffesiynol/hynt-disgyblion [Darllenwyd 22 Hydref 2020]

Hazelkorn, E. (2016) *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Higham, J. a Yeomans, D. (2010) *Working together? Partnership approaches to 14-19 education in England.* [Ar-lein]. *British Educational Research Journal* **36** (3), 379-401. Ar gael o: https://www.jstor.org/stable/pdf/27823616.pdf

Llywodraeth Cymru (2006) *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/8834/3/A9R3F9F_Redacted.pdf [Darllenwyd 16 Hydref 2020]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Canllaw ar y fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/canllawiau-cynllunio-a-chyllido-ol-16.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol 2013.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-model-cenedlaethol-ar-gyfer-gweithion-rhanbarthol.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ar y cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/f76b9728-89ea-49ee-87f2-22de334a71ff/mesur-dysgu-a-sgiliau-2009-canllawiau-ar-y-cwricwlwm-lleol-ar-gyfer-disgyblion-yng-nghyfnod-allweddol-4.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ar y cwricwlwm lleol i fyfyrwyr 16 i 18 oed.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/storage/14cbacd3-c01a-491a-8c9a-95b73bdc3697/learning-and-skills-measure-2009-local-curriculum-for-students-16-18.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Blaenoriaethau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion 2017/18*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/blaenoriaethau-ar-gyfer-chweched-dosbarth-ysgolion-2017-18.pdf [Darllenwyd 23 Hydref 2020]

Llywodraeth Cymru (2016b) *Blaenoriaethau ar gyfer y Sector Addysg Bellach 2017/18*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/priorities-for-the-further-education-sector-2017-18.pdf [Darllenwyd 23 Hydref 2020]

Llywodraeth Cymru (2019) *Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/pontio-ol-16-a-rhannu-data-yn-effeithiol-canllaw-byr-i-ysgolion-a-darparwyr-dysgu-ol-16.pdf [Darllenwyd 28 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Rhestr gyfredol o ysgolion.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/rhestr-gyfredol-o-ysgolion [Darllenwyd 3 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld13294/pri-ld13294%20-e.pdf [Darllenwyd 7 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR)*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/casglu-data-addysg-bellach-uwch [Darllenwyd 24 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru (2020d) *Y mesurau perfformiad ôl-16 cyson Diweddariad Gorffennaf 2020*. [Ar-lein]. Ar gael o: https:// https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/mesurau-perfformiad-ol-16-cyson-cylchlythyr-gorffennaf-2020.pdf.pdf [Darllenwyd 7 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru (2020e) *Casglu Data Ôl-16*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/casglu-data-ol-16 [Darllenwyd 24 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru (2020f) *Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (AHO) Gweledigaeth Strategol*. [Ar-lein]. Ar gael o https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/gweledigaeth-strategol-addysg-a-hyfforddiant-ol-orfodol.pdf [Darllenwyd 30 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru (2020g) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2020*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2020 [Darllenwyd 16 Hydref 2020]

Llywodraeth Cymru (2020h) *Porth Sgiliau –Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020i) *Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (drafft), ymgynghoriad.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/bil-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru-drafft [Darllenwyd 2 Tachwedd 2020]

Nunley, C. R., Shartle-Galotto, M. K. a Smith, M. H. (2000) *Woking with Schools to Prepare Students for College: A Case Study*. [Ar-lein]. Yn: J. C. Palmer (ed.) *How Community Colleges can Create Productive Collaborations with Local Schools.* New Directions for Community Colleges 111, 59-71. Ar gael o: https://archive.org/details/ERIC_ED448815/page/n1

Prydain Fawr (1992) *Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992.* Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2000) *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.* Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2004) *Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004.* Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2010) *Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.* Llundain: Y Llyfrfa.

StatsCymru (2020) *Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl oedran a blwyddyn.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Equality/population-estimates-by-age-year [Darllenwyd 22 Hydref 2020]

Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Materion Cymreig (2019) *Bargeinion Dinesig a Thwf i Gymru.* Llundain: Tŷ'r Cyffredin.